Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 17/2026

Dyddiad cyhoeddi: 11/02/2026

# Mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru: Astudiaeth Delphi

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-978-9

Mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru: Astudiaeth Delphi

Awduron: Alma Economics

Adroddiad Ymchwil Llawn: Alma Economics (2026). Mesur a Monitro Iechyd Democrataidd yng Nghymru: Astudiaeth Delphi. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad o Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 17/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/iechyd-democrataidd

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Emma Wallace

Gwasanaethau Cyhoeddus a Llywodraeth Leol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Enw'r tîm neu'r gangen: ymchwil.gwasanaethaucyhoeddus@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau ..... 3

Rhestr o ffigurau ..... 4

Rhestr o dermau ..... 5

Cyflwyniad a chefndir ..... 7

1.1. Heriau byd-eang mewn iechyd democrataidd ..... 7

1.2. Penodolrwydd iechyd democrataidd yng Nghymru ..... 8

1.2.1. Nifer isel sy'n pleidleisio ..... 8

1.2.2. Dim llawer o ymwybyddiaeth o strwythurau'r llywodraeth a phwerau datganoledig ..... 8

1.2.3. Bylchau mewn ymwybyddiaeth ddinesig a gwybodaeth wleidyddol ..... 9

1.2.4. Dieithrwch gwleidyddol ..... 9

1.2.5. Teimlo'n ddi-rym ..... 10

1.3. Mesur iechyd democrataidd yng Nghymru ..... 10

1.4. Ynglŷn â'r adroddiad hwn ..... 11

2. Methodoleg ..... 12

2.1. Cam 1: Cwmpasu'r prosiect ac adolygu'r dystiolaeth ..... 12

2.1.1. Diffinio iechyd democrataidd: Adolygiad desg ..... 12

2.1.2. Mapio rhanddeiliaid ..... 13

2.1.3. Fframwaith Asesu Ansawdd ..... 13

2.2. Cam 2: Gweithdai i randdeiliaid ..... 13

2.3. Cam 3: Astudiaeth Delphi ..... 14

2.3.1. Recriwtio a samplu ..... 14

2.3.2. Holiadur Delphi – Rownd 1 ..... 16

2.3.3. Holiadur Delphi – Rownd 2 ..... 16

2.3.4. Holiadur Delphi – Rownd 3 ..... 17

2.4. Cyfyngiadau ..... 17

3. Canfyddiadau ..... 19

3.1. Canfyddiadau o astudiaeth Delphi – Rownd 1 ..... 19

3.1.1. Dadansoddi'r canfyddiadau o Rownd 1 ..... 19

3.2. Canfyddiadau o astudiaeth Delphi – Rownd 2 ..... 36

3.2.1. Dadansoddi'r canfyddiadau o Rownd 2 ..... 36

3.3. Canfyddiadau o astudiaeth Delphi – Rownd 3 ..... 45

3.3.1. Dadansoddi'r canfyddiadau o Rownd 3 .....46
4. Casgliadau .....56
4.1 Sylwadau i gloi .....57
4.1.1. Rhoi'r chwe dangosydd sydd ar y rhestr fer mewn cyd-destun: Safbwyntiau a datblygiadau diweddar yng Nghymru .....57
5. Argymhellion .....61
6. Cyfeiriadau .....63

# Rhestr o dablau


Tabl 1: Dimensiwn Etholiadol - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025....20
Tabl 2: Dimensiwn Cyfranogol - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025 ..22
Tabl 3: Dimensiwn Cydgynghorol - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025 ....26
Tabl 4: Dimensiwn Cydraddol - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025 ...28
Tabl 5: Ymatebolrwydd sefydliadol - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025 ....30
Tabl 6: Tryloywder a rhyddid y cyfryngau - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025 ....32
Tabl 7: Dimensiwn Etholiadol - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025.........37
Tabl 8: Dimensiwn Cyfranogol - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025 .......40
Tabl 9: Dimensiwn Cydgynghorol - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025...41
Tabl 10: Dimensiwn Cydraddol - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025 ......42
Tabl 11: Ymatebolrwydd Sefydliadol - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025 ....43
Tabl 12: Tryloywder a Rhyddid y Cyfryngau - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025 ....45
Tabl 13: Cytundeb a chytundeb net â dangosyddion, Hydref 2025.....................................55

# Rhestr o ffigurau

Ffigur 1: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 1, Hydref 2025 ............................46
Ffigur 2: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 2, Hydref 2025 ............................48
Ffigur 3: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 3, Hydref 2025 ............................50
Ffigur 4: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 4, Hydref 2025 ............................51
Ffigur 5: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 5, Hydref 2025 ............................52
Ffigur 6: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 6, Hydref 2025 ............................53
Ffigur 7: Consensws arbenigwyr ar y rhestr derfynol o ddangosyddion, Hydref 2025 .........54

# Rhestr o dermau

**CNNs**

Rhwydweithiau Niwral Troelliadol

**CSO**

Mudiad cymdeithas sifil

**Iechyd democrataidd**

Cyflwr democratiaeth, fel y dangosir drwy chwe dimensiwn craidd: democratiaeth etholiadol, democratiaeth gyfranogol, democratiaeth gydgynghorol, democratiaeth gydraddol, ymatebolrwydd sefydliadol, a thryloywder a rhyddid y cyfryngau.

**DQI**

Mynegai Ansawdd Cydgynghori

**EMS**

Arolwg Rheoli Etholiadau

**ERS**

Y Gymdeithas Diwygio Etholiadol

**ESS**

Yr Arolwg Cymdeithasol Ewropeaidd

**FOI**

Rhyddid Gwybodaeth

**GONGO**

Corff Anllywodraethol a Drefnwyd gan y Llywodraeth

**IRT**

Damcaniaeth Ymateb i Eitem

**IWA**

Sefydliad Materion Cymreig

**ASau**

Aelodau o’r Senedd

**NGO**

Corff Anllywodraethol

**OECD**

Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

**ONS**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

**PEI**

Canfyddiadau o Uniondeb Etholiadau

**Mynegai-T**

Mynegai Tryloywder y Llywodraeth

**V-Dem**

Amrywiaethau o Ddemocratiaeth

**WCPP**

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

# Cyflwyniad a chefndir

## 1.1. Heriau byd-eang mewn iechyd democrataidd

Mae llawer o ddemocratiaethau modern yn profi bwlch cynyddol rhwng dinasyddion a'r sefydliadau sydd wedi'u cynllunio i'w cynrychioli (Valgarðsson et al, 2025). Mae hyn wedi arwain at anfodlonrwydd cyffredin â systemau gwleidyddol, llai o ymddiriedaeth mewn sefydliadau, a rhaniadau cymdeithasol a gwleidyddol cynyddol. Mae ffactorau fel caledi economaidd, canfyddiadau o lygredigaeth, anghydraddoldeb ac argyfyngau fel pandemig COVID-19 i gyd wedi dwysáu'r rhaniadau hyn (Wike a Fetterolf, 2021). Mae gwaith ymchwil diweddar wedi dangos, er bod democratiaeth gynrychiadol yn parhau i gael ei chefnogi'n eang, bod anfodlonrwydd ynghylch sut mae'n gweithredu wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd canolrif o 59% o bobl ar draws 24 gwlad wedi mynegi anfodlonrwydd â democratiaeth, gan ddweud bod swyddogion etholedig yn colli cysylltiad fwyfwy a bod pleidiau gwleidyddol yn methu â chynrychioli eu safbwyntiau'n effeithiol (Pew Research Center, 2024).

Un o nodweddion allweddol y dadrithiad hwn yw ymddiriedaeth mewn sefydliadau gwleidyddol yn dirywio. Yn ôl arolwg byd-eang a gynhaliwyd gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), dim ond 39% o ddinasyddion sy'n ymddiried yn eu llywodraeth genedlaethol, a dim ond 30% sy'n credu bod systemau gwleidyddol yn rhoi llais iddynt (OECD, 2024). Mae'r cyhoedd yn ymddiried llai mewn llywodraethau nag mewn busnesau. Mae Baromedr Ymddiriedaeth Edelman yn dangos bod y cyhoedd, ers 2007, yn ymddiried mwy mewn busnesau na'r llywodraeth (Edelman, 2007), ac, ers 2020, mae busnesau'n cael eu hystyried fel yr unig sefydliadau sy'n gymwys ac yn foesegol, o'u cymharu â'r llywodraeth, y cyfryngau a Chyrff Anllywodraethol (NGOs) (Edelman, 2025a). O safbwynt ehangach, mae Edelman yn priodoli'r diffyg ymddiriedaeth hon i nifer o ffactorau hirdymor: llai o ffydd mewn arweinwyr sefydliadau ers 2005; mwy o ddrwgdeimlad tuag at gyni a mwy o bolareiddio gwleidyddol yn cyfrannu at gynyddu'r bylchau mewn ymddiriedaeth sy'n seiliedig ar incwm ers 2012; ac amgylchedd gwybodaeth sy'n ddarniog ac yn fwyfwy drwgdybus ers 2016 (Edelman, 2025b).

Mae'r anfodlonrwydd cynyddol yn meithrin drwgdeimlad tuag at wleidyddiaeth, gyda nifer o bobl yn ystyried gwleidyddiaeth fel maes llygredigaeth, aneffeithlonrwydd ac anonestrwydd (Hay, 2007). Mae'r agwedd hon at wleidyddiaeth yn deillio o ymdeimlad dwfn o ddieithrwch, gan fod dinasyddion yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth gyfranogwyr a sefydliadau gwleidyddol nad ydynt, yn eu barn nhw, yn mynd i'r afael yn ddigonol â'u pryderon (ibid). Mae portreadau yn y cyfryngau o sgandalau a gwrthdaro hefyd yn atgyfnerthu canfyddiadau negyddol. Dros amser, mae gwleidyddiaeth wedi symud ei ffocws tuag at effeithlonrwydd economaidd, yn aml ar draul egwyddorion democrataidd (Crouch, 2004). O ganlyniad, mae ymdeimlad cynyddol o ddiffyg grym yn meithrin ymddieithrio ac yn cynnal cylch hunanbarhaol o sinigiaeth a difaterwch gwleidyddol (ibid).

Mae dieithrwch yn cyflwyno heriau sylweddol, gan fod normau democrataidd allweddol, fel parch a goddefgarwch at wrthbleidiau yn dirywio'n raddol, ac yn gwanhau sylfaen systemau democrataidd. Mae gan bobl mewn swyddi sydd â grym gwleidyddol ddylanwad cryf ar

drafodaethau cyhoeddus a sut mae sefydliadau'n gweithio. Oherwydd hyn, mae ganddynt ddyletswydd arbennig i ddiogelu safonau democrataidd. Un ffordd o wneud hyn yw drwy wrthod cyfiawnhau unigolion neu dactegau sy'n torri rheolau democrataidd. Os byddant yn methu neu'n esgeuluso gwneud hyn, mae cymdeithas yn dod yn fwy rhanedig, a gall arweinwyr poblyddol fanteisio ar y rhaniadau hyn i wanhau sefydliadau democrataidd (Levitsky a Ziblatt, 2018). Mae hyn yn creu amgylchedd lle mae modelau llywodraethu amgen, gan gynnwys opsiynau mwy awdurdodaidd, yn cynyddu eu gafael, yn dieithrio dinasyddion ymhellach ac yn dyfnhau'r datgysylltiad oddi wrth systemau gwleidyddol traddodiadol (Applebaum, 2020).

## 1.2. Penodolrwydd iechyd democrataidd yng Nghymru

Mae'r heriau democrataidd a amlygwyd uchod, gan gynnwys llai o ymddiriedaeth mewn sefydliadau, cyfranogiad gwleidyddol cyfyngedig, a mwy o ymddieithrio, yr un mor amlwg yng Nghymru. Mae anfodlonrwydd y cyhoedd â phrosesau gwleidyddol, pryderon ynghylch atebolrwydd sefydliadol, ac ymdeimlad o ddiffyg cysylltiad â strwythurau gwneud penderfyniadau yn adlewyrchu tueddiadau byd-eang ehangach. Fodd bynnag, mae Cymru hefyd yn wynebu set unigryw o heriau lleol. Mae'r rhain yn cynnwys y nifer isel sy'n pleidleisio yn etholiadau Cymru, ymwybyddiaeth gyfyngedig o strwythurau'r llywodraeth a phwerau datganoledig, bylchau mewn ymwybyddiaeth ddinesig a gwybodaeth wleidyddol, ymddieithrio gwleidyddol ac ymdeimlad o ddiffyg grym, sydd i gyd yn cyfrannu at dirwedd ddemocrataidd gynnil (Valgardsson et al, 2023).

### 1.2.1. Nifer isel sy'n pleidleisio

Un o'r dangosyddion amlycaf o ymgysylltiad gwleidyddol cyfyngedig yng Nghymru yw'r nifer sy'n pleidleisio sy'n gyson isel. Yn etholiadau'r Senedd yn 2021, dim ond 47% (Ymchwil y Senedd, 2021) wnaeth bleidleisio, o gymharu â 56% o ddinasyddion Cymru a wnaeth bleidleisio yn etholiad cyffredinol y DU yn 2024 (Ymchwil y Senedd, 2024a). Mae'r nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol wedi bod hyd yn oed yn is, sef oddeutu 38% (Y Comisiwn Etholiadol, 2022). Roedd nifer y bobl wnaeth bleidleisio yn etholiadau lleol 2025 Lloegr yn gymharol isel, sef 34% (Y Comisiwn Etholiadol, 2025). Er bod y ffigurau hyn wedi tynnu sylw Mudiadau Cymdeithas Sifil (CSOs) ac ymchwilwyr, dim ond arwyneb y pryderon ehangach y maent yn ei gynrychioli. Mae'r Sefydliad Materion Cymreig (IWA) wedi cyfeirio at y patrwm hwn fel “feirws dinesig”, gan bwysleisio'r heriau parhaus o annog pobl i gymryd rhan a chryfhau ymgysylltiad democrataidd mewn sefydliadau datganoledig (Moore, 2023). Mae amrywiaeth o ffactorau'n cyfrannu at y lefelau isel o ymgysylltu gwleidyddol yng Nghymru, fel y trafodir isod.

### 1.2.2. Dim llawer o ymwybyddiaeth o strwythurau'r llywodraeth a phwerau datganoledig

Un mater amlwg yw diffyg ymwybyddiaeth o rolau a phwerau penodol Llywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â pha feysydd polisi sydd wedi'u datganoli a pha rai sy'n parhau i fod yn gyfrifoldeb i Lywodraeth y DU. Mae ymchwil gan y Comisiwn Annibynnol ar

Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yn tynnu sylw at y ffaith nad yw llawer o ddinasyddion yn ymwybodol o gwmpas a swyddogaethau sefydliadau datganoledig. Mae sgyrsiau cenedlaethol wedi datgelu dryswch parhaus ynghylch strwythurau gwneud penderfyniadau; er enghraifft, mae cyfran sylweddol o gyfranogwyr yn credu'n anghywir bod budd-daliadau lles wedi'u datganoli (Llywodraeth Cymru, 2024a). Mae'r ffiniau aneglur rhwng gwahanol haenau o lywodraeth yn gwneud y diffyg eglurder hwn yn waeth. Mae hyn yn arbennig o amlwg ar lefel leol: yn ôl arolwg YouGov yn 2022, roedd 72% o ymatebwyr wedi dweud nad oeddent yn gwybod llawer am eu cynghorau cymuned neu gynghorau tref (Llywodraeth Cymru, 2024b).

### 1.2.3. Bylchau mewn ymwybyddiaeth ddinesig a gwybodaeth wleidyddol

Mae cysylltiad agos rhwng y diffyg ymwybyddiaeth uchod a phryder ehangach: dim llawer o wybodaeth wleidyddol. Mae'r mater hwn yn cael ei gydnabod yn eang fel rhwystr i ymgysylltu democrataidd yng Nghymru. Mae arbenigwyr wedi tynnu sylw at fwlch parhaus mewn gwybodaeth, y mae ffactorau fel terminoleg wleidyddol gymhleth, dim llawer o ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, a diffyg addysg ddinesig barhaus yn ei waethygu, yn enwedig rhwng cylchoedd etholiadol (Moore, 2023). O ganlyniad, efallai y bydd llawer o unigolion yn teimlo'n ansicr wrth ymgysylltu â materion gwleidyddol neu'n ei chael hi'n anodd deall sut mae penderfyniadau'n effeithio ar eu bywydau bob dydd. Er enghraifft, mae dryswch ynghylch rolau Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn dal yn gyffredin, yn enwedig ymysg pobl ifanc, er gwaethaf amlygrwydd y sefydliadau hyn dros y blynyddoedd diwethaf (Beaufort Research, 2020).

### 1.2.4. Dieithrwch gwleidyddol

Rhwystr arall i ymgysylltu dinesig yw dieithrwch gwleidyddol. Disgrifir hyn yn y llenyddiaeth fel "problem tŵr ifori", lle mae pobl yn credu nad yw gwleidyddion yn deall pryderon bob dydd dinasyddion cyffredin (Moore, 2023). Mae'r ymdeimlad hwn o bellter yn gyffredin; er enghraifft, datgelodd arolwg yn 2017 a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Diwygio Etholiadol (ERS) fod llawer o bobl yng Nghymru yn profi datgysylltiad democrataidd cryf, a nodweddir gan rwystredigaeth, dadrithiad a diffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddiaeth (Blair, 2017). Roedd tua thraean o'r ymatebwyr yn yr arolwg hwn yn cysylltu gwleidyddiaeth â chysylltiadau negyddol, ac roedd llawer yn credu nad yw'r system wleidyddol yn cynrychioli buddiannau pobl gyffredin (ibid). Yn yr un modd, canfu ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2020, a oedd yn canolbwyntio ar bleidleiswyr newydd gael eu hetholfreinio ac wedi ymddieithrio'n wleidyddol, fod diffyg ymddiriedaeth mewn gwleidyddion, yn enwedig y gred nad yw pleidleisio'n gwneud gwahaniaeth go iawn, yn rhwystr mawr rhag cymryd rhan (Beaufort Research, 2020). Roedd y teimlad hwn yn amlwg ar draws pob grŵp oedran, ond roedd yn arbennig o amlwg ymysg unigolion hŷn (ibid). Mae gwaith ymchwil diweddarach yn dangos bod lefelau llesiant democrataidd yng Nghymru yn dal yn isel ac nad yw wedi newid dros amser, gydag ymddiriedaeth yn llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn dal i ddisgyn y tu ôl i'r DU yn ehangach. Mae ymddiriedaeth yn Llywodraeth Cymru ac Aelodau'r Senedd wedi dirywio ers 2023, ac mae llawer o bobl yn

dal i deimlo nad ydynt yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau gwleidyddol sy'n effeithio ar Gymru. Mae diffyg ymddiriedaeth yn ymestyn i gynghorau lleol hefyd, gyda dros draean o bobl yng Nghymru yn dweud nad oes ganddynt lawer o ffydd yn eu hawdurdod lleol (Carnegie UK, 2025).

### 1.2.5. Teimlo'n ddi-rym

Yn olaf, mae effeithiolrwydd gwleidyddol, y gred y gall ymgysylltu gan unigolion arwain at newid ystyrlon, yn dal yn isel. Mae llawer o bobl yn dweud eu bod yn ansicr ynghylch sut i fynegi eu pryderon, rhannu eu barn, neu ddylanwadu ar benderfyniadau yn eu cymunedau. Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru, mae 70% o'r ymatebwyr yn teimlo nad oes ganddynt fawr ddim dylanwad, os o gwbl, dros benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn lleol (Llywodraeth Cymru, 2022b). Hyd yn oed pan fydd unigolion yn teimlo'n hyderus yn eu gallu i gymryd rhan (effeithlonrwydd mewnol), maent yn aml yn gweld eu hymdrechion yn aneffeithiol oherwydd rhwystrau strwythurol ehangach (effeithiolrwydd gwleidyddol allanol). Mae'r ymdeimlad hwn o ddiffyg grym yn cael ei ategu yn arolwg yr ERS (Blair, 2017), lle mai'r datganiad "Pan fydd pobl fel fi yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, maent wir yn gallu newid y ffordd mae pethau'n cael eu gwneud" gafodd y sgôr isaf ar gyfartaledd: 5.8 allan o 10. Gall hyd yn oed y dinasyddion mwyaf gwybodus ac sydd â'r diddordeb mwyaf ddewis ymddieithrio os nad ydynt yn credu y gall cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth arwain at ganlyniadau gwirioneddol.

## 1.3. Mesur iechyd democrataidd yng Nghymru

Mae democratiaeth iach yn hanfodol i gymdeithas sy'n weithredol ac yn gynrychioladol, er mwyn sicrhau atebolrwydd, gwirio pŵer, diogelu hawliau a chymdeithas sy'n fwy sefydlog at ei gilydd (Chatham House, 2024). Fodd bynnag, er mwyn penderfynu a oes gan wlad ddemocratiaeth iach ac er mwyn gweld lle mae angen canolbwyntio ymdrechion i gryfhau hynny, rhaid cael mecanwaith i fesur a monitro iechyd democrataidd. Dylai'r mecanwaith hwn gyfleu cymhlethdod llawn democratiaeth ac ymgysylltu dinesig, gan fynd y tu hwnt i fetrigau gor-syml fel y nifer sy'n pleidleisio.

Ar hyn o bryd, mae mesurau rhyngwladol ar gyfer iechyd democrataidd yn gysylltiedig â'r DU; fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cael eu dadgyfuno yn ôl lefel genedlaethol, felly ni allant adlewyrchu'r cyd-destun penodol yng Nghymru. O ganlyniad i hyn, comisiynodd Llywodraeth Cymru Alma Economics i ystyried y prif ganfyddiadau a'r argymhellion o waith ymchwil blaenorol (Valgardsson et al, 2023) gan archwilio sut mae iechyd democrataidd yn cael ei ddiffinio, ei fesur a'i fonitro ledled y byd, gan ganolbwyntio'n benodol ar sut gellid cymhwyso'r hyn sy'n cael ei ddysgu yng Nghymru. Nododd astudiaeth ymchwil Alma Economics yr opsiynau y gellid eu datblygu i ddatblygu set benodol o fesurau a dangosyddion i olrhain, monitro ac asesu gwahanol elfennau democratiaeth yng Nghymru.

## 1.4. Ynglŷn â’r adroddiad hwn

Mae’r adroddiad hwn yn cynnwys yr adrannau canlynol:

- Mae Pennod 2 yn ymdrin â'r fethodoleg ar gyfer y gwaith ymchwil hwn. Mae’n tynnu sylw at y nod ar gyfer pob cam o'r astudiaeth a sut roedd yn sail i'r cam nesaf. Yn ogystal, mae'r adran hon yn amlinellu meintiau'r samplau ar gyfer pob cam o'r astudiaeth a'i chyfyngiadau.
- Mae Pennod 3 yn nodi canfyddiadau pob rownd o’r astudiaeth Delphi a sut lluniwyd rhestr fer o ddangosyddion i olrhain, monitro ac asesu gwahanol elfennau democratiaeth yng Nghymru.
- Mae Pennod 4 yn amlinellu'r casgliadau ar set derfynol o ddangosyddion a wnaeth sicrhau consensws yn Rownd 3 o’r astudiaeth Delphi.
- Mae Pennod 5 yn cynnwys argymhellion sy'n canolbwyntio ar y camau a'r mesurau nesaf y gellir eu cymryd i olrhain, monitro ac asesu gwahanol elfennau o ddemocratiaeth yng Nghymru.

Ar ben hynny, mae'r Atodiadau canlynol yn cyd-fynd â'r adroddiad fel dogfennau ar wahân:

- Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr gyflawn o ddangosyddion i fesur iechyd democrataidd a ddefnyddir yn fyd-eang, sy'n deillio o'r adolygiad o lenyddiaeth a gynhaliwyd yng ngham cyntaf yr astudiaeth hon.
- Mae Atodiad B yn amlinellu'r Fframwaith Asesu Ansawdd a ddatblygwyd i bennu pa mor ddefnyddiol a pherthnasol yw’r dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn astudiaeth Delphi yng nghyd-destun Cymru.
- Mae Atodiad C yn crynhoi perfformiad pob dangosydd yn erbyn y Fframwaith Asesu Ansawdd, fel y cawsant eu profi yn Rownd 2 astudiaeth Delphi.
- Mae Atodiad D yn rhoi trosolwg dadansoddol manwl o'r chwe dangosydd terfynol sydd ar y rhestr fer, gan gynnwys dull casglu data, graddfeydd a mesurau, gan ganiatáu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r methodolegau a'r metrigau sy'n sail i bob dangosydd.
- Mae Atodiad E yn amlinellu adnoddau ymchwil yr astudiaeth hon, gan gynnwys y canllawiau trafod ar gyfer gweithdai rhanddeiliaid a'r holiaduron a ddefnyddiwyd yn nhair rownd Delphi.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Cam 1: Cwmpasu'r prosiect ac adolygu'r dystiolaeth

### 2.1.1. Diffinio iechyd democrataidd: Adolygiad desg

Roedd Cam 1 yn cynnwys adolygiad desg o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd (er enghraifft, dogfennau polisi) i ddeall y prif faterion yn well, datblygu deunyddiau ymchwil, a nodi meysydd ffocws. Roedd yr adolygiad yn canolbwyntio ar y dystiolaeth bresennol ynghylch sut mae iechyd democrataidd yn cael ei fesur yng Nghymru ar hyn o bryd, yn ogystal â chymariaethau rhwng y mesurau sy'n cael eu defnyddio'n rhyngwladol. Er mwyn casglu tystiolaeth ddilys heb ei chyhoeddi am gyd-destun Cymru, gwnaed cais wedi'i dargedu am dystiolaeth, gan gysylltu â Chanolfan Llywodraethiant Cymru a Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru (WCPP), sydd wedi gwneud gwaith blaenorol yn y maes hwn, yn ogystal â hysbysebu'r cais ar-lein drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol Alma Economics.

Fel rhan o'r ymarfer cwmpasu, adolygwyd arolygon a setiau data presennol, gan gynnwys Arolwg Cenedlaethol Cymru, Astudiaeth o Etholiadau Cymru, Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol, Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol, ac adroddiadau ar ganlyniadau etholiadau. Cafodd rhestr hir o ddangosyddion ei chreu o ganlyniad i hyn, wedi'i chategoreiddio yn ôl y chwe dimensiwn iechyd democrataidd a amlinellir yn adroddiad WCPP 'Diffinio, Mesur a Monitro Iechyd Democrataidd yng Nghymru' (Valgardsson et al, 2023), ac wedi'i rhannu ymhellach yn ddau grŵp: y dangosyddion hynny sydd eisoes yn cael eu casglu yng Nghymru, a'r dangosyddion sydd ar gael mewn mannau eraill (yn y DU neu'n rhyngwladol) ond nad ydynt yn cael eu mesur yng Nghymru eto. Mae'r rhestr gyflawn o ddangosyddion a ystyriwyd i'w gweld yn Atodiad A, tra bod chwe dimensiwn iechyd democrataidd yn ôl adroddiad WCPP wedi'u hamlinellu isod:

- **democratiaeth etholiadol**, sy'n agwedd graidd ar iechyd democrataidd, yn asesu tegwch, hygyrchedd a chystadleurwydd etholiadau; mae'n archwilio a all pob dinesydd bleidleisio'n rhydd, a yw etholiadau'n dryloyw ac yn adlewyrchu ewyllys yr etholwyr, ac a yw swyddogion etholedig yn atebol ac yn ymatebol.
- **democratiaeth gyfranogol**, sy'n canolbwyntio ar ddinasyddion yn cymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau ar ôl pleidleisio; mae'n cynnwys gweithgareddau gwleidyddol ffurfiol (er enghraifft, cysylltu â chynrychiolwyr, ymuno â phleidiau) a chamau anffurfiol (er enghraifft, protestio, deisebu).
- **democratiaeth gydgynghorol**, sy'n canolbwyntio ar ansawdd trafodaethau gwleidyddol, gwerthfawrogi dadl wybodus, barchus a rhesymegol dros gyfranogi yn unig; mae'n gofyn am benderfyniadau sy'n seiliedig ar werthoedd cyffredin a rhesymu cyhoeddus, gyda'r nod o gryfhau cyfreithlondeb democrataidd drwy ystyried safbwyntiau amrywiol yn ofalus.
- **democratiaeth gydraddol**, sy'n pwysleisio mynediad cyfartal at gyfranogiad a chynrychiolaeth wleidyddol; mae'n asesu a all pob dinesydd, gan gynnwys grwpiau ymylol, gymryd rhan mewn prosesau gwleidyddol ac a yw demograffeg amrywiol yn cael ei chynrychioli'n deg wrth wneud penderfyniadau.

- **ymatebolrwydd sefydliadol**, sy'n mesur pa mor effeithiol y mae sefydliadau gwleidyddol yn ymateb i anghenion a phryderon dinasyddion; mae'n cynnwys ymgynghori â'r cyhoedd, ymgorffori mewnbwn dinasyddion, ac effeithiolrwydd gwleidyddol, sef y gred y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau, felly, gan nodi a yw dinasyddion yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cynrychioli wrth i bolisïau gael eu llunio.
- **tryloywder a rhyddid y cyfryngau**, sy'n cefnogi iechyd democrataidd drwy hyrwyddo tryloywder ac atebolrwydd; mae'n cynnwys mynediad y cyhoedd at wybodaeth swyddogol, llunio polisïau agored, a mesurau diogelu ar gyfer newyddiaduraeth annibynnol, gan alluogi craffu a thrafodaeth wybodus sy'n cryfhau swyddogaethau democrataidd eraill.

### 2.1.2. Mapio rhanddeiliaid

Drwy gydol y cam cwmpasu, cafodd cronfa ddata o unigolion a grwpiau perthnasol ei chreu o'r byd academaidd, y sector cyhoeddus, pleidiau gwleidyddol, cyrff anllywodraethol, melinau trafod a mudiadau trydydd sector i ymgysylltu â nhw drwy gydol yr ymchwil, yn y gweithdai cychwynnol i randdeiliaid ac er mwyn ffurfio'r Panel Arbenigol i gymryd rhan yn astudiaeth Delphi. Nodwyd arbenigwyr yng Nghymru, y DU yn ehangach, ac yn rhyngwladol. I gael rhagor o wybodaeth am hyn, darllenwch yr adran ar ‘Recriwtio a samplu’ isod.

### 2.1.3. Fframwaith Asesu Ansawdd

Ar sail yr adolygiad o dystiolaeth, cafodd Fframwaith Asesu Ansawdd pwrpasol ei greu i werthuso mesurau, a oedd yn addas i'r diben ac wedi'i deilwra i'r nodweddion penodol. Er mwyn sicrhau bod y Fframwaith yn addas i asesu dangosyddion sy'n benodol i Gymru a dangosyddion a ddefnyddir y tu allan i Gymru ar hyn o bryd, datblygwyd rhestr o feini prawf asesu fesul categori (un ar gyfer mesurau sy'n bodoli yng Nghymru ar hyn o bryd ac un ar gyfer mesurau y gellid eu cyflwyno yng Nghymru). Pwrpas y Fframwaith oedd profi dangosyddion posibl i werthuso pa mor ddefnyddiol a pherthnasol y byddent yng nghyd-destun Cymru yn Rownd 2 astudiaeth Delphi. Mae'r Fframwaith Asesu Ansawdd llawn ar gael yn Atodiad B.

## 2.2. Cam 2: Gweithdai i randdeiliaid

Roedd Cam 2 yr ymchwil hwn wedyn yn cynnwys cynnal dau weithdy ar-lein i dynnu ar wybodaeth ac arbenigedd y rhanddeiliaid i gyfrannu at ddyluniad astudiaeth Delphi yng Ngham 3. Roedd y rhain yn para hyd at 90 munud ac yn dechrau gyda chyflwyniad byr ar fesurau iechyd democrataidd presennol yn seiliedig ar y cam cwmpasu, ac yna trafodaeth ar y rhestr hir o ddangosyddion a nodwyd yn y cam cwmpasu a'r Fframwaith Asesu Ansawdd. Cyfrannodd wyth o rhanddeiliad at ddyluniad astudiaeth Delphi drwy'r gweithdai, gan ganolbwyntio ar yr agweddau canlynol:

- **mesurau a dangosyddion ym mhob dimensiwn ac is-elfennau cysylltiedig iechyd democrataidd** – o ystyried ehangder y mesurau a'r dangosyddion a nodwyd

yn y cam cwmpasu, gofynnwyd i randdeiliaid pa rai y dylid eu blaenoriaethu a pham, yn ogystal ag a ddylid cyflwyno rhai ychwanegol, a sut gellid gweithredu'r rhain.
    - yn dilyn hyn, paratowyd rhestr hir ddiwygiedig o ddangosyddion i'w profi gydag arbenigwyr fel rhan o astudiaeth Delphi.
- **asesu mesurau a dangosyddion** – cyflwynwyd y Fframwaith Asesu Ansawdd drafft i randdeiliaid, a chynhaliwyd trafodaeth ynghylch a ddylid ystyried ffactorau ychwanegol wrth asesu mesurau a dangosyddion iechyd democrataidd yng Nghymru, neu a ddylid dileu unrhyw ffactorau.
    - ni awgrymwyd unrhyw newidiadau, a chadarnhawyd dyluniad cychwynnol y Fframwaith Asesu Ansawdd (fel y cyflwynir yn Atodiad B).

## 2.3. Cam 3: Astudiaeth Delphi

Er mwyn llunio rhestr fer o'r dangosyddion hynny sydd yn y sefyllfa orau i fesur iechyd democrataidd mewn ffordd gadarn, ymarferol a thryloyw, cynhaliwyd astudiaeth Delphi (Chuenjitwongsa, 2017) i ganfod lle mae consensws ymysg panel amrywiol o arbenigwyr a lle nad oes consensws. Roedd astudiaeth Delphi yn cynnwys tri holiadur olynol, i gyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Roedd pob holiadur ar gael i'w lenwi am rhwng pythefnos a phedair wythnos. Sicrhawyd ansawdd yr holiaduron ymlaen llaw i sicrhau bod y cwestiynau wedi'u cynllunio i gasglu'r wybodaeth ofynnol, bod yr iaith a ddefnyddiwyd yn briodol i'r boblogaeth darged, a bod yr amcangyfrif o'r amser a roddwyd i gyfranogwyr lenwi'r holiadur yn gymesur, heb fod yn rhy feichus.

### 2.3.1. Recriwtio a samplu

I ffurfio'r Panel Arbenigol, cysylltwyd ag unigolion allweddol, a nodwyd yn yr ymarfer mapio rhanddeiliaid, a oedd yn cyfateb i'r meini prawf cymhwysedd arbenigol a amlinellir isod, gan fanteisio ar rwydwaith cysylltiadau Llywodraeth Cymru ac Alma Economics, gan fynd o nerth i nerth yn barhaus. Dewiswyd yr unigolion ar sail bodloni o leiaf dri o'r pedwar maen prawf ar gyfer ymgysylltu fel arbenigwr:

1. **perthnasedd –** a ydynt yn gyfarwydd ag iechyd democrataidd Cymru neu gyd-destun tebyg.

2. **methodoleg –** a ydynt wedi defnyddio/gweithio gyda mesurau tebyg yn y gorffennol (er enghraifft, Freedom House, V-Dem, ac ati).

3. **hygrededd –** o leiaf dair blynedd o brofiad ac enw da yn broffesiynol (er enghraifft, erthygl wedi'i chyhoeddi a'i hadolygu gan gymheiriaid ar y pwnc hwn) yn un o'r meysydd canlynol: llywodraethiant democrataidd, systemau etholiadol neu arsylwi etholiadol, cymryd rhan mewn bywyd dinesig, hawliau dynol neu ddiwygio democrataidd.

    a. proffesiynau gan gynnwys y byd academaidd, polisi, cymdeithas sifil, comisiynu etholiadol, ac ati.

4. **iaith –** siarad Cymraeg neu Saesneg.

Gwnaed cyswllt cychwynnol drwy e-bost ag unigolion a enwir (lle bo hynny'n bosibl), gan egluro pwysigrwydd y gwaith ymchwil hwn a gofynion Delphi o ran cymryd rhan. Cynhaliwyd camau dilynol os nad oedd ateb, gan gofio am wyliau ysgol neu wyliau banc a allai arwain at oedi cyn ymateb. Drwy'r dull hwn, ffurfiwyd Panel Arbenigol o 23 o gyfranogwyr o Gymru, y DU yn ehangach, a lleoliadau rhyngwladol. O ystyried natur heriol cymryd rhan yn yr astudiaeth Delphi, anogwyd y Panel Arbenigol i gwblhau pob rownd o'r astudiaeth, ond ni chafodd cyfranogwyr eu cosbi am golli rownd a chawsant gwblhau rhai dilynol. Roedd hyn hefyd yn caniatáu i gyfranogwyr gwblhau pob rownd yn ddienw, gan sicrhau bod pawb yn cael gwybodaeth lawn am ddatblygiadau diweddar yr astudiaeth. Cyn cwblhau rownd newydd, rhoddwyd crynodeb o ganlyniadau'r rownd flaenorol i'r cyfranogwyr.

Roedd rownd gyntaf astudiaeth Delphi yn cynnwys 22 o gyfranogwyr. Roedd 12 ohonynt yn dod o gefndir academaidd neu ymchwil (tri yn gweithio yng Nghymru, pedwar yn Lloegr, tri yn Ewrop, a dau yng Ngogledd America), roedd naw yn gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (pedwar ym maes polisi a llywodraethiant yn y Llywodraeth neu'r Gwasanaeth Sifil, tri ym maes polisi a llywodraethiant mewn Corff Rheoleiddio neu Oruchwylio, un ym maes ymchwil mewn Corff Rheoleiddio neu Oruchwylio, ac un ym maes diwygio etholiadol mewn Corff Rheoleiddio neu Oruchwylio), ac roedd un yn gweithio mewn corff anllywodraethol, melin drafod, neu fudiad trydydd sector yn Lloegr.

Rhannwyd ail gylch astudiaeth Delphi yn ddwy ran oherwydd ei bod yn dechnegol iawn. Cyfrannodd 16 o arbenigwyr at Ran A. Roedd naw ohonynt yn dod o gefndir academaidd neu ymchwil (tri yng Nghymru, un yn Lloegr, tri yn Ewrop, a dau yng Ngogledd America), roedd chwech yn gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (pedwar ym maes polisi a llywodraethiant yn y Llywodraeth neu'r Gwasanaeth Sifil, dau mewn Corff Rheoleiddio neu Oruchwylio ac un yn y maes diwygio etholiadol), ac roedd un yn gweithio mewn corff anllywodraethol, melin drafod neu fudiad trydydd sector yn Lloegr. Roedd deg o arbenigwyr wedi cyfrannu at Ran B. Roedd pump ohonynt yn dod o gefndir academaidd neu ymchwil (dau yng Nghymru, un yn Lloegr, un yn Ewrop, ac un yng Ngogledd America), roedd pedwar yn gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (tri ym maes polisi a llywodraethiant yn y Llywodraeth neu'r Gwasanaeth Sifil, ac un ym maes diwygio etholiadol mewn Corff Rheoleiddio neu Oruchwylio), ac roedd un yn gweithio mewn corff anllywodraethol, melin drafod, neu fudiad trydydd sector yn Lloegr.

Roedd y drydedd rownd a'r rownd olaf o astudiaeth Delphi yn cynnwys 21 o gyfranogwyr. Roedd saith ohonynt yn dod o gefndir academaidd neu ymchwil (dau yn gweithio yng Nghymru, pedwar yn Ewrop, ac un yng Ngogledd America), roedd naw yn gweithio yn y sector cyhoeddus yng Nghymru (pedwar ym maes polisi a llywodraethiant yn y Llywodraeth neu'r Gwasanaeth Sifil, dau mewn cyngor cymuned neu gyngor tref, un mewn etholiadau mewn Corff Rheoleiddio neu Oruchwylio, gyda'r ddau arall ddim yn nodi), roedd dau yn gweithio mewn corff anllywodraethol, melin drafod, neu fudiad trydydd sector (un yn Lloegr ac un yng Nghymru), roedd un yn cynrychioli plaid wleidyddol, roedd un yn arbenigwr wedi ymddeol, ac ni wnaeth un cyfranogwr arall nodi ei faes arbenigedd.

### 2.3.2. Holiadur Delphi – Rownd 1

Ar ôl cadarnhau'r Panel Arbenigol, lansiwyd holiadur cyntaf astudiaeth Delphi. Roedd yr holiadur cyntaf yn gofyn cyfuniad o gwestiynau penagored a chaeedig i greu rhestr fer gychwynnol o ddangosyddion. Roedd cwestiynau caeedig yn galluogi cyfranogwyr i ddewis y dangosyddion yr oeddent yn eu hystyried yn fwyaf priodol fesul dimensiwn ac is-elfen gysylltiedig o iechyd democrataidd. Roedd cwestiynau penagored yn rhoi lle i rannu ystyriaethau, pryderon, neu hyd yn oed awgrymiadau pellach o fesurau a dangosyddion i'w hystyried.

Cynhyrchwyd ystadegau disgrifiadol ar gyfer yr holl gwestiynau caeedig, ochr yn ochr â dadansoddiad thematig i bennu themâu allweddol fesul cwestiwn penagored, gan chwilio am safbwyntiau cyffredin a thynnu sylw at unrhyw feysydd cyffredinol o safbwyntiau amrywiol. Ar sail y dadansoddiad, datblygwyd rhestr fer gychwynnol o ddangosyddion i'w hystyried ymhellach yn ail rownd astudiaeth Delphi. Rhannwyd crynodeb o ganfyddiadau o Rownd 1 gyda'r Panel Arbenigol ochr yn ochr â holiadur Rownd 2, i sicrhau tryloywder a chefnogaeth bellach gan gyfranogwyr.

### 2.3.3. Holiadur Delphi – Rownd 2

Yna, profodd ail astudiaeth Delphi lefel y consensws ar y dangosyddion ar y rhestr fer, gyda phob un yn cael ei brofi yn erbyn y Fframwaith Asesu Ansawdd, gan ddefnyddio'r meini prawf pwrpasol a gynlluniwyd ar gyfer y dangosyddion hynny sydd eisoes yn cael eu mesur yng Nghymru a rhai gwahanol ar gyfer y rhai a ddefnyddir mewn mannau eraill. Gan ddefnyddio graddfeydd 5-pwynt Likert, yn unol â safonau’r diwydiant (Akins et al, 2005; Vogel et al, 2019), gofynnwyd i gyfranogwyr fynegi eu cytundeb (1= Cytuno’n Gryf, 2= Cytuno, 3= Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno, 4= Anghytuno, 5= Anghytuno’n Gryf) â nifer o ddatganiadau fesul dangosydd, gyda phob datganiad yn cyfleu un maen prawf ansawdd. Ar gyfer pob dangosydd nad yw ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, rhoddwyd yr opsiwn i ymatebwyr ateb o safbwynt Cymru neu wlad arall. O ystyried y nifer uchel o ddangosyddion a roddwyd ar y rhestr fer yn Rownd 1 ac oherwydd bod yn rhaid profi pob un yn erbyn y meini prawf asesu ansawdd er mwyn cwtogi'r rhestr fer gychwynnol yn effeithiol, roedd holiadur Rownd 2 yn dechnegol iawn ac roedd yn rhaid ei rannu'n ddwy ran. Arweiniodd hyn at rywfaint yn gadael y rownd hon, gyda Rhan 1 yn cael mwy o ymatebion na Rhan 2.

Yn dilyn hyn, cynhaliwyd dadansoddiad i lunio rhestr fer o'r dangosyddion a sgoriodd yn uchel yn erbyn y meini prawf asesu ansawdd oherwydd eu heffeithiolrwydd a'u haddasrwydd. I ddechrau, er mwyn i ddangosydd gael bod ar y rhestr fer, roedd yn rhaid i o leiaf 70% gytuno (Cytuno’n Gryf + Cytuno) ar draws yr holl feini prawf yn unol ag arferion gorau (Vogel et al, 2019). Nid oedd unrhyw ddangosydd yn cyrraedd y trothwy hwn, felly defnyddiwyd dull mwy hyblyg. O dan y dull diwygiedig hwn, gellid rhoi dangosydd ar y rhestr fer os oedd yn bodloni'r ddau amod canlynol:

- wedi sicrhau cytundeb o leiaf 70% ar un neu fwy o'r meini prawf asesu ansawdd.

- wedi cyrraedd perfformiad dau flwch uchaf ar gyfartaledd (t2b) [troednodyn 1] a pherfformiad net cyfartalog [troednodyn 2] ar draws meini prawf o dros 50% (ceir esboniad pellach o hyn o dan 'Canfyddiadau').

Yn dilyn y dull gweithredu hwn, rhoddwyd chwe dangosydd ar y rhestr fer. Yn yr un modd â'r rownd flaenorol, cafodd y prif ganfyddiadau eu crynhoi mewn dogfen i'w dosbarthu i'r Panel ochr yn ochr â holiadur Rownd 3, gan dynnu sylw at feysydd lle roedd consensws a rhai nad oedd consensws.

### 2.3.4. Holiadur Delphi – Rownd 3

Gofynnodd rownd derfynol yr astudiaeth am adborth ar set derfynol o chwe dangosydd ar y rhestr fer ar sail eu perfformiad yn Rownd 2. Roedd yr holiadur yn cynnwys saith cwestiwn gorfodol ar lefel cytundeb arbenigwyr â'r set derfynol o ddangosyddion, yn unigol ac fel set, yna cwestiynau dewisol a oedd yn gofyn i arbenigwyr roi argymhellion ar y defnydd gorau posibl o'r dangosyddion hyn a'u rhoi ar waith, gan ganolbwyntio'n benodol ar feysydd heriol fesul dangosydd a nodwyd yn Rownd 2 (hynny yw, meini prawf asesu ansawdd unigol lle nad oedd consensws wedi'i sicrhau fesul dangosydd er gwaethaf sgôr uchel y dangosydd yn y Fframwaith Asesu Ansawdd).

Yn dilyn hyn, cynhaliwyd dadansoddiad i nodi pa ddangosyddion a gafodd sgôr cymeradwyaeth o 70%, ochr yn ochr â myfyrdodau arbenigwyr ar y detholiad terfynol o ddangosyddion. Mae'r canfyddiadau'n adlewyrchu cyfanswm a sgoriau cytundeb net fesul dangosydd ac ar draws y set o chwe dangosydd.

## 2.4. Cyfyngiadau

Fel sy'n wir am lawer o astudiaethau Delphi, roedd cynnal ymgysylltiad cyfranogwyr drwy gydol y broses gyfan yn her allweddol. Er mwyn lliniaru'r risg o gyfraddau ymateb cychwynnol isel a lleihau cyfraddau gadael y sampl, rhoddwyd nifer o strategaethau ar waith, fel:

- **cyfathrebu clir**, gan gynnwys tryloywder ynghylch disgwyliadau ac ymrwymiadau amser yr ymchwil, yn ogystal â manteision a phwysigrwydd cymryd rhan.
- **cynnal ymgysylltiad** drwy ddarparu diweddariadau rheolaidd (gan gynnwys rhannu canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg) ar yr ymchwil i gynyddu cyfranogiad.

#### Troednodiadau

[1] Mae'r perfformiad dau flwch uchaf (t2b) yn cyfleu cyfran yr ymatebwyr sy'n rhoi'r ddau sgôr mwyaf cadarnhaol ("Cytuno'n Gryf" a "Cytuno"), gan ddangos cymeradwyaeth gadarhnaol yn gyffredinol.

[2] Mae perfformiad net yn cyfrif am ymatebion cadarnhaol a negyddol drwy dynnu cyfran y sgoriau negyddol ("Anghytuno" ac "Anghytuno'n Gryf") o'r rhai cadarnhaol ("Cytuno'n Gryf" a "Cytuno").

- **lleihau'r baich** ar unigolion drwy gyfyngu ar yr ymrwymiad amser i gymryd rhan ym mhob rownd a pheidio â chosbi cyfranogwyr am beidio â chwblhau pob rownd.
- **rhoi strategaethau ailymgysylltu ar waith**, gan gynnwys ailgysylltu â chyfranogwyr lle bo hynny'n bosibl.

Roedd astudiaeth Delphi yn gofyn am ystod eang o arbenigedd yn cwmpasu meysydd polisi ac ystadegau, yn ogystal â mewnbwn gan arbenigwyr lleol a rhyngwladol i sicrhau cadernid methodolegol. Roedd Rownd 2 yr astudiaeth yn arbennig o dechnegol, gan mai'r Panel oedd yn gyfrifol am asesu ansawdd nifer o ddangosyddion arfaethedig. O ganlyniad, rhagwelwyd mai'r rownd hon fyddai'n cyflwyno'r heriau mwyaf o ran ymgysylltu. Gwnaed ymdrechion i wella hygyrchedd, er enghraifft, drwy ganiatáu i gyfranogwyr ymateb yng nghyd-destun Cymru neu mewn cyd-destun arall roeddent yn teimlo'n fwy cyfforddus ag ef. Fodd bynnag, er gwaethaf y mesurau hyn a'r strategaethau ymgysylltu a amlinellir uchod, roedd y cyfraddau ymateb yn Rownd 2 yn dal yn is nag yn y rownd flaenorol, gyda chyfraddau gadael hefyd yn amlwg rhwng Rhan 1 a Rhan 2 o'r un rownd.

Felly, er mwyn sicrhau bod y nifer mwyaf posibl yn cymryd rhan yn y rownd derfynol (Rownd 3), gwahoddwyd yr holl arbenigwyr a nodwyd i gyfrannu, ni waeth beth oedd eu rhan yn y camau cynharach. Lluniwyd holiadur terfynol Delphi er mwyn gallu ymgysylltu'n annibynnol, gan ei fod yn profi'r rhestr fer derfynol, a oedd wedi cael ei datblygu mewn rowndiau blaenorol. Roedd y dull cynhwysol hwn hefyd yn estyn gwahoddiadau i arbenigwyr allweddol a nodwyd yn flaenorol, ond nad oeddent wedi cofrestru ar gyfer yr astudiaeth i ddechrau. O ganlyniad, cynyddodd yr ymgysylltu, a chyflawnwyd sampl ehangach i brofi consensws yn fwy cadarn ar y set o ddangosyddion sydd ar y rhestr fer. Darparwyd ymateb anarbenigol yn ddamweiniol yn Rownd 3, gyda nifer yr ymatebion yn 22 i ddechrau [troednodyn 3]. Gan fod holiaduron Delphi wedi'u cynllunio i gael eu llenwi gan arbenigwyr sy’n meddu ar wybodaeth am bynciau yn barod, tynnwyd yr ymateb hwnnw o'r sampl, gan fynd â'r nifer terfynol o ymatebion i 21.

### Troednodiadau

[3] Nododd y cyfranogwr nad oedd yn arbenigwr, ond roedd y diffyg arbenigedd hefyd yn amlwg drwy ei ymatebion i gyd, gan ei fod wedi rhoi'r un sgôr ar draws yr holl gwestiynau gorfodol, heb gyfrannu ymhellach at unrhyw un o'r cwestiynau dewisol.

# 3. Canfyddiadau

## 3.1. Canfyddiadau o astudiaeth Delphi – Rownd 1

Roedd rownd gyntaf astudiaeth Delphi yn canolbwyntio ar lunio rhestr fer gychwynnol o ddangosyddion a nodwyd drwy ein hadolygiad desg, ac a gafodd eu mireinio yn ystod y gweithdai arbenigol [troednodyn 4]. Roedd yr holiadur yn gofyn i arbenigwyr restru'r dangosyddion ym mhob dimensiwn, o'r mwyaf priodol i'r lleiaf priodol ar gyfer mesur iechyd democrataidd yng Nghymru, rhoi cafeatau ar gyfer eu safleoedd, a nodi unrhyw ddangosyddion allweddol a oedd ar goll o'r rhestr.

### 3.1.1. Dadansoddi'r canfyddiadau o Rownd 1

Mae'r adran hon yn cyflwyno safleoedd y dangosyddion, ochr yn ochr â sylwadau cyd-destunol ac awgrymiadau pellach a wnaed gan yr arbenigwyr. Mae'r safleoedd yn seiliedig ar y gyfran gyfun o grybwylliadau safle cyntaf, ail safle a thrydydd safle, sydd fel arfer yn cyd-fynd â'r lleoliad cyfartalog, ond a oedd yn cael eu ffafrio er mwyn osgoi rhoi gormod o bwyslais ar ddangosyddion sy'n clystyru yng nghanol y safleoedd. Er mwyn i ddangosydd gael ei roi ar y rhestr fer, roedd yn rhaid iddo fodloni un o'r amodau canlynol:

- cael mwy na 50% o grybwylliadau cyfun yn y safle cyntaf, yr ail safle a'r trydydd safle.
- cael cyfartaledd lleoliad ar fwy na hanner cyfanswm nifer y dangosyddion o fewn eu dimensiwn.
    - er enghraifft, ar gyfer dimensiwn â 10 dangosydd, byddai unrhyw ddangosydd â safle cyfartalog o 5 neu well yn cael ei roi ar y rhestr fer.

Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol i'r holl fesurau perfformiad a gyflwynir yn y tablau isod.

- cyfran y crybwylliadau cyntaf: Canran yr arbenigwyr a ddewisodd bob dangosydd fel y mwyaf priodol i fesur iechyd democrataidd yng Nghymru ym mhob dimensiwn.
- cyfran y tri chrybwylliad cyntaf: Canran yr arbenigwyr a ddewisodd bob dangosydd fel y cyntaf, yr ail neu'r trydydd mwyaf priodol i fesur iechyd democrataidd yng Nghymru ym mhob dimensiwn.
- lleoliad cyfartalog (X [troednodyn 5]): Safle cymedrig y dangosydd mewn trefn.

**Troednodiadau**

[4] Mae’r rhestr gyflawn o ddangosyddion a nodwyd yn yr adolygiad desg ar gael yn Atodiad A. Mae’r rhestr ddiwygiedig o’r gweithdai arbenigol ar gael yn Atodiad E (sgript Rownd 1 holiadur Delphi).

[5] Mae X yn cyfeirio at nifer y dangosyddion ym mhob dimensiwn.

- sylwch fod y gwerth hwn yn amrywio yn ôl dimensiwn, gan ddibynnu ar gyfanswm nifer y dangosyddion.

### Democratiaeth etholiadol

Roedd y pedwar dangosydd uchaf ar y rhestr fer yn ymwneud â dewis ystyrlon pleidleiswyr, pa mor hawdd yw pleidleisio, hyder pleidleiswyr, a chynnal tegwch i ymgeiswyr.

**Tabl 1: Dimensiwn Etholiadol - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025**

| Dangosydd | Cyfran y crybwylliadau cyntaf | Cyfran y tri chrybwylliad cyntaf | Lleoliad cyfartalog (10) | Ar y rhestr fer |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Cystadleurwydd etholiadau:** A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr? | 23% | 55% | 3.8 | Ydy |
| **Uniondeb etholiadau:** Yn gyffredinol, gan feddwl am bleidleisio mewn etholiad(au), sut byddech chi'n disgrifio pa mor hawdd yw cymryd rhan? Hyd yn oed os nad ydych chi erioed wedi pleidleisio, meddyliwch pa mor hawdd neu anodd fyddai hynny yn eich barn chi. | 23% | 50% | 4.1 | Ydy |
| **Uniondeb etholiadau:** Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i bleidleisio mewn etholiad?/Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i gofrestru i bleidleisio? | 18% | 45% | 4.5 | Ydy |
| **Cystadleurwydd etholiadau:** A oedd y broses etholiadol yn caniatáu tegwch i bob ymgeisydd, gan gynnwys mynediad teg at gyllid ar gyfer y cyfryngau ac ymgyrchoedd? | 5% | 36% | 4 | Ydy |
| **Uniondeb etholiadau:** A yw'r pleidiau a'r ymgeiswyr sy'n colli yn derbyn canlyniad yr etholiad cenedlaethol hwn? A oedd gweithdrefnau effeithiol i ddinasyddion wneud cwynion am y broses etholiadol? | 5% | 36% | 5.6 | Nac ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Uniondeb etholiadau:** I ba raddau ydych chi'n cytuno/anghytuno â'r datganiad canlynol? “Rwy’n credu bod y pleidleisiau'n cael eu cyfrif yn gywir mewn etholiadau ym Mhrydain Fawr.” | 9% | 23% | 5.7 | Nac ydy |
| **Uniondeb etholiadau:** Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi â'r system o gofrestru i bleidleisio ym Mhrydain Fawr? | 5% | 18% | 6.6 | Nac ydy |
| **Cystadleurwydd etholiadau:** Sut mae rheolau cyllid ymgyrchoedd yn cael eu gorfodi, ac a ydynt yn caniatáu ar gyfer cystadleuaeth deg? | 5% | 18% | 6.4 | Nac ydy |
| **Cystadleurwydd etholiadau:** Gan feddwl am gyllido ymgyrchwyr a phleidiau gwleidyddol, pa mor agored a thryloyw yw'r wybodaeth am hyn yn eich barn chi? | 9% | 9% | 7.1 | Nac ydy |
| **Uniondeb etholiadau:** Yn gyffredinol, gan feddwl am bleidleisio mewn etholiad(au), sut byddech chi'n disgrifio diogelwch pleidleisio? Hyd yn oed os nad ydych chi erioed wedi pleidleisio, meddyliwch pa mor ddiogel fyddai hynny yn eich barn chi. | - | 9% | 7 | Nac ydy |

Yn yr ymatebion testun agored, tynnwyd sylw'n aml at ddangosyddion cystadleurwydd etholiadau fel mesurau craidd o iechyd democrataidd. I'r gwrthwyneb, roedd dangosyddion a oedd yn ymwneud â hwylustod cymryd rhan weithiau'n cael eu gosod yn is, er gwaethaf eu perfformiad cryf yn gyffredinol. Roedd yn ymddangos bod safle is y dangosyddion hyn hefyd yn adlewyrchu'r datblygiadau disgwyliedig, fel cyflwyno trefniadau i gofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yng Nghymru, a grybwyllwyd gan ddau arbenigwr.

Mynegodd tri arbenigwr ffafriaeth dros ddata dyfarniadau arbenigwyr yn hytrach na phleidleisio cyhoeddus, gan nodi pryderon y gallai rhagfarn neu fylchau mewn gwybodaeth yn y boblogaeth ehangach ddylanwadu ar ganlyniadau pleidleisio. Nododd saith arbenigwr, yn bennaf o gefndiroedd academaidd, fod gorgyffwrdd rhwng rhai dangosyddion hefyd, fel rhwyddineb pleidleisio a hyder wrth bleidleisio, ac awgrymwyd eu grwpio o dan gategorïau thematig ehangach.

Pan ofynnwyd am awgrymiadau pellach, argymhellodd dau arbenigwr y dylid ailedrych ar ddangosyddion sy'n ymwneud â diogelu hawliau sifil a rhyddid i ymgysylltu, gan gynnwys y

gallu i ffurfio pleidiau gwleidyddol a sefyll mewn etholiadau. Ystyriwyd y rhain yn gynharach yn yr astudiaeth ond fe'u heithriwyd o'r astudiaeth Delphi, oherwydd ystyrir bod democratiaeth yng Nghymru wedi hen ennill ei phlwyf. Cynigiodd un arbenigwr gynnwys dangosyddion o degwch y system etholiadol, gyda chymariaethau posibl rhwng modelau cyfrannol a mwyafrifol. Roedd awgrymiadau unigol eraill yn cynnwys ymgorffori mesurau fel cyfrannau pleidleisiau'r pleidiau, cyllid ymgyrchoedd cyhoeddus, amlder herio canlyniadau etholiadau, a chyfran y papurau pleidleisio gwag neu wedi'u difetha i ategu dangosyddion sy'n seiliedig ar ganfyddiad.

**Democratiaeth gyfranogol**

Y tri dangosydd uchaf a gafodd y sgoriau uchaf ac a gafodd eu rhoi ar y rhestr fer oedd y nifer a oedd yn pleidleisio mewn etholiadau, cyswllt â chynghorwyr lleol ac Aelodau o'r Senedd (ASau), ac ymdrechion i ddylanwadu ar benderfyniadau ar lefel leol. Cafodd y dangosydd llesiant cenedlaethol ar ddinasyddiaeth fyd-eang weithgar yng Nghymru hefyd ei gynnwys ar y rhestr fer, er nad oedd ymysg y rhai â'r sgôr uchaf, oherwydd bod rhai cyfranogwyr wedi mynegi diffyg eglurder ynghylch yr hyn roedd yn ei olygu. Byddai'n cael ei brofi ymhellach yn Rownd 2, ochr yn ochr â rhagor o wybodaeth am yr hyn mae'n ei olygu.

**Tabl 2: Dimensiwn Cyfranogol - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025**

| Dangosydd | Cyfran y crybwylliadau cyntaf | Cyfran y tri chrybwylliad cyntaf | Lleoliad cyfartalog (10) | Ar y rhestr fer |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau (ystadegau swyddogol):** Nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol. | 59% | 68% | 3.2 | Ydy |
| **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol:** Ydych chi wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? (o Arolwg Cenedlaethol Cymru)/Ydych chi wedi cysylltu â'ch Aelodau o'r Senedd (ASau) yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? | 14% | 45% | 4.4 | Ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol:** Ydych chi erioed wedi ceisio dylanwadu ar benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y cyngor? | 9% | 41% | 4.2 | Ydy |
| **Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau [Senedd/Lleol] (agwedd):** Fel y gwyddoch efallai, cynhaliwyd etholiadau ar [dyddiad etholiad diweddaraf y Senedd]. Yn aml, rydym yn gweld nad oedd llawer o bobl yn gallu pleidleisio oherwydd eu bod yn sâl, nad oedd ganddynt yr amser, neu nad oedd ganddynt ddiddordeb. Beth amdanoch chi - wnaethoch chi lwyddo i bleidleisio?/Yn etholiadau cynghorau lleol Cymru ar [dyddiad yr etholiad diweddaraf], nid oedd llawer o bobl wedi llwyddo i bleidleisio. Beth amdanoch chi – wnaethoch chi lwyddo i bleidleisio yn etholiadau cynghorau lleol Cymru? | - | 36% | 5.1 | Nac ydy |
| **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth anffurfiol:** Dinasyddiaeth fyd-eang weithgar yng Nghymru. | 5% | 27% | 6.1 | Ydy (gweler isod) |
| **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol:** Asesiad o wybodaeth am wleidyddiaeth ddatganoledig yng Nghymru a gwleidyddiaeth y DU yn San Steffan, wedi'i mesur ar raddfa 0-10. | - | 27% | 6.6 | Nac ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol (Etholiadau'r Senedd):** Gan feddwl am yr etholiad(au) ar [dyddiad etholiad diweddaraf y Senedd], yn gyffredinol, faint, os o gwbl, oeddech chi'n teimlo yr oeddech chi'n ei wybod am yr etholiad(au) yn eich ardal?/I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? "Roedd gen i ddigon o wybodaeth am ymgeiswyr i allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth." | - | 18% | 5.7 | Nac ydy |
| **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol:** I ba raddau y mae gennych ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae eich cynghorydd lleol yn ei wneud ar ran eich cymuned leol? | - | 14% | 5.8 | Nac ydy |
| **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol (Etholiadau'r Senedd):** Gan feddwl am yr etholiad(au) ar [dyddiad etholiad diweddaraf y Senedd], yn gyffredinol, faint, os o gwbl, oeddech chi'n teimlo yr oeddech chi'n ei wybod am yr etholiad(au) yn eich ardal?/I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol? "Roedd gen i ddigon o wybodaeth am ymgeiswyr i allu gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth." | 9% | 14% | 6.5 | Nac ydy |
| **Diddordeb a gwybodaeth wleidyddol:** Faint o effaith y mae gwleidyddiaeth y DU yn ei chael neu faint o wahaniaeth mae'n ei gwneud i'ch bywyd bob dydd yn eich barn chi? | 5% | 9% | 7.4 | Nac ydy |

Er mai'r nifer a bleidleisiodd oedd wedi cael y sgôr uchaf, pwysleisiodd pum arbenigwr na ddylid ei drin fel dangosydd annibynnol o ddemocratiaeth gyfranogol. Er eu bod yn cydnabod ei werth, teimlai llawer y dylai gael ei ategu gan fesurau sy'n cofnodi mathau eraill

o ymgysylltu dinesig. Dadleuodd nifer o arbenigwyr hefyd fod y set bresennol o ddangosyddion yn adlewyrchu dealltwriaeth gul o gyfranogiad, gan ganolbwyntio gormod ar etholiadau a mecanweithiau ffurfiol. Roeddent yn awgrymu y dylai democratiaeth gyfranogol hefyd gynnwys ymgysylltu anffurfiol, gweithgarwch dinesig rhwng etholiadau, a chynnwys dinasyddion mewn prosesau gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, cwestiynodd rhai arbenigwyr ddilysrwydd y safleoedd, gan nodi eu bod yn cyfuno dimensiynau gwahanol o ran cyfranogiad.

Dywedodd arbenigwyr hefyd y dylid bod yn ofalus rhag dibynnu gormod ar farn y cyhoedd a data hunangofnodedig, y gall rhagfarn dymunolrwydd cymdeithasol, camgofnodi (er enghraifft, unigolion yn honni eu bod wedi pleidleisio pan nad oeddent), a lefelau amrywiol o berthnasedd ar draws grwpiau poblogaeth effeithio arnynt.

Roedd dau arbenigwr yn gwerthfawrogi dangosyddion sy'n mesur gwybodaeth dinasyddion am lywodraethiant a'u gallu i ymgysylltu â sefydliadau gwleidyddol, gan ystyried bod y rhain yn hanfodol i ymddiriedaeth a chyfranogiad ystyrlon. Fodd bynnag, roedd dau arall yn cwestiynu a yw gwybodaeth wleidyddol fanwl yn hanfodol, gan rybuddio y gallai mesurau o'r fath gyflwyno rhagfarnau cymdeithasol neu o ran dosbarth.

Yn olaf, mynegodd tri ymatebydd ansicrwydd ynghylch y dangosydd ar ymgysylltu â gwleidyddiaeth anffurfiol, gan nodi eu bod yn anghyfarwydd â'r dangosydd llesiant cenedlaethol ar ddinasyddiaeth fyd-eang weithgar yng Nghymru. Felly, cafodd y dangosydd llesiant cenedlaethol ar ddinasyddiaeth fyd-eang weithgar yng Nghymru ei gynnwys ar y rhestr fer er mwyn ei brofi ymhellach yn ail rownd astudiaeth Delphi, ynghyd â gwybodaeth gliriach am ei gwmpas a'i ddiffiniad.

Hefyd, cynigiodd arbenigwyr nifer o awgrymiadau wedi'u targedu i gryfhau a mireinio'r dangosyddion arfaethedig. Argymhellodd tri y dylid ehangu cwmpas mesurau cyfranogiad gwleidyddol, gydag un yn cynnig yn benodol ychwanegu cwestiwn sawl ymateb i gwmpasu'r ystod o weithgareddau gwleidyddol anffurfiol y mae dinasyddion yn cymryd rhan ynddynt dros gyfnod o flwyddyn. Roedd dangosydd a oedd yn mesur ymgysylltiad â gwleidyddiaeth anffurfiol wedi cael ei ystyried yn gynharach yn yr astudiaeth ond cafodd ei eithrio oherwydd pryderon am hyd yr holiadur a'i gydnawsedd cyfyngedig â chreu dangosydd cyfansawdd o ddemocratiaeth yng Nghymru. Yn benodol, byddai casglu adborth yr arbenigwyr ar gyfranogiad gwleidyddol anffurfiol wedi golygu bod yn rhaid iddynt adolygu cwestiwn amlddewis hir gyda llawer o ddewisiadau o ran atebion, a oedd yn codi pryderon ynghylch hyd cyffredinol yr holiadur. Yn ogystal, roedd yr ystod eang o ffurfiau y gallai cyfranogiad anffurfiol eu cymryd yn ei gwneud yn anodd trosi'r mesur hwn yn un elfen o ddangosydd cyfansawdd o ddemocratiaeth yng Nghymru. Roedd dau argymhelliad arall yn canolbwyntio ar asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dinasyddion o wahanol lefelau llywodraeth a'u swyddogaethau.

Roedd awgrymiadau unigol eraill yn cynnwys:

- cynnal archwiliad ansoddol o'r rhwystrau i ymgysylltu democrataidd i nodi heriau nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn mesurau meintiol.

- ehangu mesurau cyfranogol i adlewyrchu cynnwys pobl yn well mewn prosesau gwneud penderfyniadau, fel y pwysleisiwyd mewn fframweithiau fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).
- cynnwys mesurau ymwybyddiaeth a defnyddio mecanweithiau democrataidd cyfranogol, fel refferenda, pleidleisiau gwlad, cyllidebu cyfranogol, ac ymgynghoriadau cyhoeddus.

**Democratiaeth gydgynghorol**

Y tri dangosydd uchaf oedd defnyddio cyfiawnhad dros safbwyntiau polisi, ymgysylltu â gwrthddadleuon, a chynrychioli’r safbwyntiau hyn yn deg mewn dadleuon yn Senedd Cymru.

**Tabl 3: Dimensiwn Cydgynghorol - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025**

| Dangosydd | Cyfran y crybwylliadau cyntaf | Cyfran y tri chrybwylliad cyntaf | Lleoliad cyfartalog (6) | Ar y rhestr fer |
|---|---|---|---|---|
| **Gwleidyddion yn defnyddio cyfiawnhad rhesymegol mewn dadleuon (Senedd Cymru):** A yw gwleidyddion yn rhoi cyfiawnhad clir a rhesymegol dros eu safbwyntiau polisi yn ystod dadleuon? | 73% | 95% | 1.5 | Ydy |
| **Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru):** A yw gwleidyddion yn cydnabod ac yn ymgysylltu â gwrthddadleuon neu safbwyntiau amgen a gyflwynir yn ystod dadleuon? | 14% | 73% | 2.6 | Ydy |
| **Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru):** A yw safbwyntiau croes yn cael eu cynrychioli'n deg, neu a ydynt yn cael eu hystumio neu eu camgyfleu i'w tanseilio? | 5% | 68% | 3.2 | Ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru):** A yw gwleidyddion yn ymateb i safbwyntiau croes mewn ffordd barchus, gan osgoi ymyrryd, bod yn anghyfeillgar, neu ymosodiadau ad hominem? | 9% | 41% | 3.9 | Nac ydy |
| **Gwleidyddion yn defnyddio cyfiawnhad dros benderfyniadau sy'n apelio at les pawb (Senedd Cymru):** A yw gwleidyddion yn cyfiawnhau eu penderfyniadau drwy gyfeirio at les pawb? | - | 18% | 4.2 | Nac ydy |
| **Ansawdd y trafod yn y cylch cyhoeddus:** Sawl rhaglen lles sy'n seiliedig ar brawf modd, a sawl un sydd o fudd i bob aelod (neu bron pob aelod) o'r wladwriaeth? | - | 5% | 5.5 | Nac ydy |

Mynegodd pedwar arbenigwr bryderon am y gorgyffwrdd cysyniadol rhwng dangosyddion yn y dimensiwn cydgynghorol, gan nodi bod llawer o'r mesurau'n ymddangos yn gysylltiedig iawn, gan gyfleu syniadau tebyg ac felly lleihau gwerth gwahaniaethu rhyngddynt. Nododd pedwar arall nad oedd dangosydd y rhaglen les yn cyd-fynd yn agos ag unrhyw elfen o ddemocratiaeth gydgynghorol. Roedd dau ymatebydd hefyd yn dadlau, er bod cyfiawnhad cyhoeddus yn agwedd bwysig ar ddemocratiaeth, efallai nad yw o reidrwydd yn adlewyrchu ansawdd na dilysrwydd y broses gydgynghorol, gan fod cyfiawnhad weithiau'n gallu cuddio cymhellion gwleidyddol neu osgoi deialog go iawn. Dywedodd un cyfranogwr hefyd fod y term “lles pawb” yn aneglur ac o bosibl yn rhy amwys i'w ddefnyddio fel sail i asesiad ystyrlon.

Gwnaeth arbenigwyr nifer o awgrymiadau hefyd ar gyfer cryfhau'r dangosyddion. Roedd pedwar yn argymell ychwanegu mesurau cydgynghori ymarferol i gofnodi cyfranogiad dinasyddion yn y broses o wneud penderfyniadau y tu hwnt i etholiadau, er enghraifft drwy gynulliadau dinasyddion neu ymgynghoriadau cyhoeddus. Mae'r awgrymiadau hyn yn ymwneud â chydgynghori gwirioneddol, sydd, er ei fod yn dal yn berthnasol yn thematig oherwydd ei fod yn ymwneud â'r “cyflenwad” cydgynghorol o gymryd rhan, yn perthyn yn agosach serch hynny i agwedd gyfranogol democratiaeth. Roedd awgrymiadau unigol na weithredwyd ymhellach arnynt yn cynnwys ymgorffori metrigau V-Dem ychwanegol, gan gynnwys amrywiaeth yr ymgynghori (dangosydd o dan y llyfr cod V-Dem (v15): v2dlconslt), cymdeithas ymgysylltiol (dangosydd o dan y llyfr cod V-Dem (v 15): v2dlengage), amlder iaith casineb y prif bleidiau gwleidyddol (dangosydd o dan y llyfr cod V-Dem (v15): v2smpolhate), a defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i ledaenu gwybodaeth gamarweiniol neu ffug (dangosydd o dan y llyfr cod V-Dem (v15): v2smpardom). Ar ben hynny,

awgrymodd dau arall y dylid asesu hyd a lled ac ansawdd y sylw a roddir i ddadleuon gwleidyddol yn y cyfryngau. Roedd argymhellion unigol eraill yn cynnwys ychwanegu mesurau polareiddio gwleidyddol ac asesu cyfrifoldeb arweinwyr gwleidyddol a phleidiau yn eu trafodaethau cyhoeddus.

Ar gyfer y dimensiwn hwn, gwahoddwyd arbenigwyr i rannu eu barn ymhellach ynghylch a ellid ehangu'r dangosyddion ar gyfiawnhad a gwrthddadleuon i gynnwys llywodraeth leol hefyd. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod rhai cyfyngiadau, yn enwedig o ran argaeledd a hygyrchedd data, gan y byddai angen cofnodi cyfarfodydd llywodraeth leol a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd er mwyn gallu eu dadansoddi'n systematig. Roedd syniadau penodol yn cynnwys defnyddio data geogyfeiriedig o Google Trends a'r cyfryngau cymdeithasol, a ddadansoddir gan ddefnyddio dulliau testun, i fesur canfyddiadau'r cyhoedd o ansawdd disgwrs; archwilio pwyllgorau safonau am achosion lle na chafodd safonau eu cynnal, gan nodi y gallai hyn dynnu sylw at enghreifftiau negyddol yn unig; ac archwilio'r defnydd o offer deallusrwydd artiffisial i fonitro trafodaethau'r cyngor.

### Democratiaeth gydraddol

Y ddau ddangosydd uchaf eu safle oedd nodweddion demograffig-gymdeithasol ymgeiswyr a nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig.

**Tabl 4: Dimensiwn Cydraddol - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025**

| Dangosydd | Cyfran y crybwylliadau cyntaf | Cyfran y tri chrybwylliad cyntaf | Lleoliad cyfartalog (3) | Ar y rhestr fer |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys ymhlith ymgeiswyr:** Nodweddion demograffig-gymdeithasol ymgeiswyr. | 59% | 95% | 1.4 | Ydy |
| **Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys yn y llywodraeth ac ymhlith deddfwyr:** Nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig. | 27% | 86% | 1.9 | Ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Sut mae polisïau yn cyd-fynd ag amrywiol grwpiau cymdeithasol:** Gofynnir i bobl roi eu barn ar amrywiaeth o faterion, gan gynnwys a ddylai'r llywodraeth dorri trethi a lleihau gwariant ar iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn sylweddol, blaenoriaethu diogelu'r amgylchedd dros dwf economaidd, diddymu'r Senedd, a dychwelyd at drefniadau cyn datganoli, neu ddiogelu sofraniaeth y DU (gan ddefnyddio graddfa o 0 i 10). Yna gofynnir iddynt roi Llafur Cymru, Plaid Geidwadol Cymru, a Phlaid Cymru ar yr un raddfa ar gyfer pob mater. | 14% | 18% | 2.6 | Nac ydy |

Cafwyd adborth cadarnhaol gan sawl arbenigwr, yn tynnu sylw at eglurder a pha mor gynhwysfawr oedd y dangosyddion yn y dimensiwn hwn. Fodd bynnag, roedd tri o'r farn bod y cwestiwn ynghylch sut roedd polisïau'n cyd-fynd â gwahanol grwpiau cymdeithasol yn aneglur, gan arwain atynt yn canolbwyntio ar y ddau ddangosydd arall yn lle hynny.

Roedd yr awgrymiadau yn y maes hwn yn adlewyrchu'r rhai o'r dimensiwn cyfranogol, gan ganolbwyntio ar ehangu'r diffiniad o gydraddoldeb wrth gymryd rhan i gyfleu ymgysylltu y tu hwnt i sefyll mewn etholiad neu ddal swydd. Argymhellodd dau arbenigwr y dylid cynnwys dangosyddion hunangofnodedig ochr yn ochr ag ystadegau swyddogol, fel y gallu canfyddedig i ymuno â phlaid wleidyddol, mynediad cyfartal canfyddedig at gyfranogiad gwleidyddol, a chanfyddiadau o gynrychiolaeth. Awgrymodd dau arall gasglu data ar wahaniaethau o ran cofrestru pleidleiswyr a chyfraddau pleidleisio yn ôl rhywedd, tarddiad cenedlaethol, cyfeiriadedd rhywiol, a nodweddion eraill. Yn olaf, cynigiodd un cyfranogwr ychwanegu cwestiynau i asesu seilos cymdeithasol a demograffig mewn trafodaethau gwleidyddol, er enghraifft, a yw unigolion yn tueddu i drafod materion gwleidyddol yn bennaf ag eraill o gefndiroedd tebyg neu wahanol, fel ffordd o ddal effeithiau siambr adlais posibl.

### Ymatebolrwydd sefydliadol

Y tri dangosydd uchaf a'r rhai ar y rhestr fer oedd bodlonrwydd dinasyddion â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio yn y DU ac yng Nghymru yn benodol, bodlonrwydd dinasyddion â chynghorau lleol yn gweithredu ar bryderon trigolion lleol, a chred dinasyddion y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardaloedd lleol. Ar ben hynny, mewn ymateb i argymhelliad penodol a nodwyd gan sawl cyfranogwr (gweler isod), cyflwynwyd y dangosydd "cwynion y llywodraeth" o Faromedr Ymddiriedaeth Edelman (t. 59) o'r newydd at y rhestr fer.

**Tabl 5: Ymatebolrwydd sefydliadol - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025**

| Dangosydd | Cyfran y crybwylliadau cyntaf | Cyfran y tri chrybwylliad cyntaf | Lleoliad cyfartalog (7) | Ar y rhestr fer |
|---|---|---|---|---|
| **Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol:** Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru? | 27% | 55% | 3.6 | Ydy |
| **Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol:** I ba raddau ydych chi'n meddwl bod eich cyngor/cynghorau lleol yn gweithredu ar bryderon trigolion lleol? | 5% | 55% | 3.6 | Ydy |
| **Cred dinasyddion yn eu gallu i ddylanwadu ar wleidyddiaeth:** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallwch chi ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eich ardal leol? | 18% | 50% | 3.7 | Ydy |
| **Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol:** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y bobl sy'n ennill etholiadau ac sy'n gyfrifol am y wlad yn poeni am bobl fel chi? | 9% | 41% | 4.1 | Nac ydy |
| **Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol:** Pa mor fodlon ydych chi â'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gwneud ei gwaith? | 23% | 36% | 4.1 | Nac ydy |
| **Ymgynghoriad y Llywodraeth â dinasyddion a chymdeithas sifil:** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod eich cynghorydd lleol yn gweithio'n agos gyda'ch cymuned leol? | 5% | 36% | 4.6 | Nac ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cysondeb polisïau â barn gyhoeddus:** I ba raddau y mae polisïau diweddar y llywodraeth yn adlewyrchu dewisiadau'r cyhoedd yng Nghymru? | 14% | 27% | 4.6 | Nac ydy |
| **(wedi'i gyflwyno o'r newydd)**<br><br>**Ymddiriedaeth dinasyddion yn y llywodraeth:** Wrth feddwl pam eich bod yn ymddiried yn y llywodraeth yn gyffredinol, neu beidio, nodwch lle rydych chi'n credu y mae ar raddfa rhwng y ddwy set o ddisgrifiadau sy'n cyferbynnu (Set A: rhwng 'Gwasanaethu buddiannau grwpiau penodol o bobl yn unig' a 'Gwasanaethu buddiannau pawb yn deg ac yn gyfartal'; Set B: rhwng 'Ar y cyfan mae ei gweithredoedd yn niweidio ansawdd fy mywyd' ac 'Ar y cyfan mae ei gweithredoedd yn gwella ansawdd fy mywyd'). | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ydy (gweler isod) |

Roedd dau arbenigwr o'r farn bod y dangosyddion yn y dimensiwn hwn yn anodd eu sgorio, gan nodi eu bod tua'r un mor bwysig a bod rhywfaint o orgyffwrdd rhwng categorïau. Ar ben hynny, roeddent yn adrodd am broblemau gyda chwmpas a geiriad. Roedd sylwadau penodol yn cynnwys nad yw'r cwestiwn "dylanwad ar ardal leol" yn gwahaniaethu rhwng llywodraeth leol a chenedlaethol, nid yw'r dangosydd "ymgynghoriad y llywodraeth" yn cyd-fynd yn llwyr â'i gwestiwn sylfaenol, a gallai'r mesur ar ba mor agos y mae cynghorwyr yn gweithio gyda chymunedau fod yn afrealistig i'r rhan fwyaf o ymatebwyr ei ateb yn gywir.

Argymhellodd tri chyfranogwr y dylid cynnwys dangosyddion sy'n ymwneud ag ymddiriedaeth yn y dimensiwn hwn, gan gynnwys sefydliadau fel y senedd, y llywodraeth, pleidiau gwleidyddol, gwleidyddion ac asiantaethau gweithredol. Mewn ymateb, roedd y rhestr fer hefyd yn cynnwys y dangosydd "cwynion y llywodraeth" o Faromedr Ymddiriedaeth Edelman (t. 59).

Roedd awgrymiadau unigol eraill yn cynnwys ymgorffori metrigau ar ymdeimlad o berthyn mewn cymunedau lleol ac ar degwch a thryloywder canfyddedig prosesau gwneud penderfyniadau, gan ganolbwyntio'n benodol ar a yw dinasyddion yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a'u cynrychioli.

### Tryloywder a rhyddid y cyfryngau

Roedd y pedwar dangosydd uchaf yn ymwneud ag a ellir dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr, strategaethau gwrth-lygredd neu uniondeb cyhoeddus ffurfiol, i ba raddau y mae cyfryngau'n rhydd i adrodd yn

feirniadol ar y llywodraeth heb ofni sensoriaeth na dial, a chyfraddau ymateb a llwyddiant ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth (FOI).

**Tabl 6: Tryloywder a rhyddid y cyfryngau - Safle cychwynnol y dangosydd, Gorffennaf - Awst 2025**

| Dangosydd | Cyfran y crybwylliadau cyntaf | Cyfran y tri chrybwylliad cyntaf | Lleoliad cyfartalog (10) | Ar y rhestr fer |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Tryloywder y Llywodraeth:** A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr? | 27% | 59% | 3.1 | Ydy |
| **Tryloywder y Llywodraeth:** A oes strategaeth gwrth-lygredd neu uniondeb cyhoeddus ffurfiol ar waith, ac a yw'n cynnwys amcanion mesuradwy gyda monitro rheolaidd? | 18% | 45% | 5.0 | Ydy |
| **Rhyddid y cyfryngau:** I ba raddau mae darparwyr cyfryngau'n rhydd i adrodd yn feirniadol ar y llywodraeth heb ofni cael eu sensro neu rywun yn dial arnynt? | 23% | 41% | 4.5 | Ydy |
| **Tryloywder y Llywodraeth:** Ymatebolrwydd Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a chyfraddau llwyddiant. | 9% | 23% | 4.7 | Ydy |
| **Tryloywder y Llywodraeth:** A oes gan gyrff archwilio mewnol ac unedau moeseg ddigon o adnoddau a grym i weithredu ar achosion o dorri uniondeb? | - | 36% | 5.2 | Nac ydy |
| **Rhyddid y cyfryngau:** A yw perchnogaeth y cyfryngau yn ddigon amrywiol i sicrhau mynediad at amrywiaeth eang o safbwyntiau a barn wleidyddol? | 5% | 23% | 5.7 | Nac ydy |
| **Rhyddid y cyfryngau:** A oes gogwydd systematig yn y sylw yn y cyfryngau yn erbyn ymgeiswyr neu wrthbleidiau, yn enwedig o amgylch cyfnodau etholiadau? | - | 23% | 6.4 | Nac ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Rhyddid y cyfryngau:** A yw newyddiadurwyr yn cael eu hamddiffyn rhag aflonyddu, ac a yw sensoriaeth wleidyddol o gynnwys yn brin neu'n absennol?/A yw newyddiadurwyr yn ymatal rhag ymdrin â phynciau sensitif oherwydd eu bod yn ofni canlyniadau cyfreithiol, gwleidyddol neu economaidd, hyd yn oed heb orfodaeth uniongyrchol? | - | 23% | 6.3 | Nac ydy |
| **Tryloywder y Llywodraeth:** Yn gyffredinol, faint o wybodaeth ydych chi'n meddwl mae eich cyngor/cynghorau lleol yn ei rhoi i breswylwyr am y gwasanaethau a'r manteision mae'n eu darparu? | 9% | 18% | 5.4 | Nac ydy |
| **Canfyddiadau'r cyhoedd:** Sawl gwaith yr wythnos ydych chi'n sylwi bod y Senedd yn cael ei chrybwyll yn y cyfryngau (prif ffrwd a chymdeithasol) yng Nghymru a'r DU? | 9% | 9% | 8.6 | Nac ydy |

Roedd tri chyfranogwr o'r farn bod y dangosyddion yn y dimensiwn hwn yn heriol i'w sgorio, gan nodi mai'r ffordd orau i'w deall yw fel rhan o gyfres ehangach yn hytrach na fel mesurau annibynnol. Tynnodd un cyfranogwr sylw hefyd at orgyffwrdd rhwng dangosyddion sy'n ymwneud â rhyddid y cyfryngau.

Roedd awgrymiadau ar gyfer mireinio yn cynnwys ychwanegu dangosyddion i asesu a yw gwybodaeth a gedwir gan y llywodraeth yn hygyrch ac yn ddealladwy i ddinasyddion, ochr yn ochr â mesurau tryloywder presennol. Argymhelliad arall oedd canolbwyntio ar ansawdd gwybodaeth, gan fod dangosyddion cyfredol yn tueddu i bwysleisio maint neu fodolaeth gwybodaeth yn hytrach na pha mor ddefnyddiol neu effeithiol ydyw o ran diwallu anghenion y cyhoedd. Roedd awgrym arall yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried dibynadwyedd ffynonellau cyfryngau lleol ochr yn ochr â darparwyr cenedlaethol.

### Myfyrdodau cyffredinol

Ar ôl rhestru'r dangosyddion ym mhob dimensiwn, gwahoddwyd y cyfranogwyr i roi eu barn gyffredinol am y chwe dimensiwn os oeddent yn dymuno gwneud hynny. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn mynegi barn gadarnhaol ar y cyfan bod y dimensiynau arfaethedig yn cyfleu democratiaeth yng Nghymru yn effeithiol. Cofnodwyd dau ymateb negyddol, er bod y rhain yn cyfeirio at y dangosyddion o fewn dimensiwn yn hytrach na'r dimensiwn ei hun. O ran y dimensiwn cyfranogol, nododd un arbenigwr ei fod wedi'i fframio ychydig yn gul, gyda rhai dangosyddion yn canolbwyntio'n bennaf ar etholiadau neu ar fesurau diddordeb a gwybodaeth, yn hytrach na chofnodi cyfranogiad gwirioneddol mewn prosesau

democrataidd. Canfu'r un cyfranogwr fod y dangosyddion cydgynghorol wedi'u cyfyngu i drafodaeth wleidyddol ffurfiol mewn sefydliadau, gan anwybyddu cyfranogiad ehangach dinasyddion yn y broses o wneud penderfyniadau. Tynnodd dau gyfranogwr sylw at absenoldeb dangosyddion democratiaeth ryddfrydol, naill ai fel dimensiwn penodol neu wedi'u hymgorffori yn y dimensiwn etholiadol. Gallai dangosyddion o'r fath gynnwys elfennau fel annibyniaeth farnwrol, rheol gyfreithiol, cydymffurfiaeth swyddogol â deddfwriaeth, ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn sefydliadau cyfreithiol. Cyfeiriodd ymatebwyr at fodelau presennol, fel V-Dem, ac adroddiadau a oedd yn tanlinellu pwysigrwydd y dimensiwn hwn, gan rybuddio y gallai hawliau rhyddfrydol fod yn agored i niwed hyd yn oed mewn democratiaethau sydd wedi’u hen sefydlu fel Cymru. Nododd un ymatebydd y byddai archwilio safbwyntiau is-grwpiau yn helpu i gael darlun llawnach o brofiad democrataidd yng Nghymru.

O ran blaenoriaethu'r chwe dimensiwn ar gyfer olrhain, monitro ac asesu elfennau democrataidd, pwysleisiwyd rhai dimensiynau'n gyson. Tynnwyd sylw'n aml at ddemocratiaeth etholiadol a chyfranogol fel “prif” fesurau craidd, gyda rhai'n nodi, os yw'r dimensiynau hyn mewn cyflwr da, y daw'r lleill yn fwy defnyddiol ar gyfer nodi amrywiadau a chael gwybodaeth gymharol. Roedd democratiaeth gydgynghorol a chydraddol hefyd yn cael ei hystyried yn arbennig o bwysig. Nodwyd mai ymatebolrwydd sefydliadol mewn dau achos oedd y dangosydd mwyaf allweddol, gan adlewyrchu gallu systemau democrataidd i drosi mewnbwn dinasyddion yn gamau gweithredu. Roedd safbwyntiau ar dryloywder a rhyddid y cyfryngau yn rhanedig; roedd rhai cyfranogwyr o'r farn ei fod yn hanfodol ar gyfer atebolrwydd, ac roedd eraill o'r farn ei fod yn llai allweddol o'i gymharu â'r dimensiynau eraill.

Pwysleisiodd nifer o ymatebwyr y dylid trin y chwe dimensiwn yn gyflenwol, gyda phob un yn cyfrannu persbectif unigryw at ddeall iechyd democrataidd yng Nghymru. Pwysleisiwyd eu rhyngddibyniaeth dro ar ôl tro, gyda'r consensws na all un dimensiwn ar ei ben ei hun gyfleu'r darlun llawn. Awgrymodd un cyfranogwr gynhyrchu mesur cyfansawdd o'r chwe dimensiwn i ddarparu asesiad integredig.

**Myfyrdodau ar ddulliau casglu data**

Cafodd arbenigwyr hefyd eu hannog i roi mewnbwn ar ystyriaethau technegol sy'n ymwneud â defnyddio polau, ystadegau swyddogol, a dadansoddi arbenigol wrth asesu iechyd democrataidd.

Gofynnwyd i'r cyfranogwyr sut gellid gwneud polau yn fwy cynhwysol er mwyn cyfleu’n well safbwyntiau unigolion nad ydynt fel arfer yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth, fel y rheini nad ydynt wedi cofrestru i bleidleisio ac aelodau o gymunedau ymylol. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys y dulliau canlynol:

- gwaith maes wedi'i dargedu a samplu, drwy gynnal polau wyneb yn wyneb neu drwy grwpiau gwirfoddol a chymunedol i orsamplu poblogaethau nad ydynt yn cael eu clywed yn aml.
- polau cydgynghorol (er enghraifft, model James S. Fishkin), yn cyfuno samplu ar hap â chydgynghori strwythuredig, ar sail gwybodaeth, er mwyn helpu i gynyddu lleisiau unigolion llai trefnus neu fwy ymylol ar faterion cymhleth/cynhennus.

- arolygon panel ar-lein, sy'n werthfawr am eu cost-effeithlonrwydd a'u cyrhaeddiad, er eu bod hefyd yn cael eu cydnabod fel arolygon sydd â chyfyngiadau ar gyfer poblogaethau sydd wedi'u heithrio a'u hymyleiddio'n ddigidol.
    - dylai ymchwilwyr fod yn dryloyw ynghylch y cyfyngiadau hyn a defnyddio dulliau safon aur (samplu ar hap, wyneb yn wyneb) yn ddetholus ar gyfer grwpiau penodol.
- gallai cymhellion, fel tâl am gymryd rhan, wella cyfraddau ymateb, ond gan nodi y gallai materion cost ac ansawdd data godi o ganlyniad i hyn.
- defnyddio llwyfannau ac apiau cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd grwpiau sy'n anodd ymgysylltu â nhw, ond gan nodi y gallai'r dulliau hyn ofyn am lawer o adnoddau.
- dewis ar hap o'r boblogaeth fel y dull delfrydol, ond mae'n anoddach ei gyflawni oherwydd cyfraddau ymateb sy'n dirywio ac yn unochrog.
- pwysoli, ond gan nodi nad yw'r dull hwn bob amser yn llwyddiannus.

Gofynnwyd hefyd i arbenigwyr argymell gweithdrefnau ar gyfer gwella cywirdeb, cysondeb a phrydlondeb dangosyddion gweinyddol. Roedd eu hawgrymiadau'n cynnwys:

- cysoni ymdrechion i fesur a monitro Iechyd Democrataidd yng Nghymru ag Uned Data Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau cysondeb.
- creu storfa ddata ganolog sydd ar gael i gyrff cyhoeddus, y llywodraeth a chyrff anllywodraethol yng Nghymru.
- defnyddio nifer o ffynonellau data gweinyddol (er enghraifft, cofrestrau etholiadol, data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol) i wella cadernid.

Yn olaf, gofynnwyd i arbenigwyr am fesurau diogelu a allai leihau rhagfarn a gwella cymaroldeb dros amser wrth ddefnyddio codio arbenigol i asesu dangosyddion democrataidd. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys:

- dewis arbenigwyr yn ofalus a sicrhau amrywiaeth, drwy greu timau amrywiol sy'n cwmpasu amrywiaeth o dueddiadau a chefndiroedd gwleidyddol, gan gynnwys academyddion cydnabyddedig ac ymarferwyr profiadol, gan groesawu'r realiti bod gan arbenigwyr ragfarnau hefyd.
- llunio cwestiynau pendant a phenodol, drwy ddatblygu cwestiynau arolwg arbenigol sy'n glir, â ffocws cul, ac yn gadarn.
    - yn benodol, soniwyd y dylai pob cwestiwn fynd i'r afael ag un cysyniad sydd wedi'i ddiffinio'n dda er mwyn lleihau amwysedd, a gellir osgoi termau awgrymog neu amwys drwy ddarparu enghreifftiau pendant a chategorïau ymateb cadarn.
- rhoi cyfrif am wahaniaethau mewn sgoriau arbenigwyr drwy gydnabod bod arbenigwyr yn amrywio wrth raddio llymder.
    - o ystyried bod rhai arbenigwyr yn llymach, eraill yn fwy trugarog, a bod cyfeiriadedd gwleidyddol o bosibl yn effeithio ar sgoriau, awgrymwyd y dylai dulliau casglu data gasglu digon o ddata i fodelu'r tueddiadau unigol hyn.
- defnyddio datblygiadau arloesol methodolegol gan V-Dem, gan gynnwys:
    - Senarios Cryno: Darparu senarios cadarn sy'n helpu i raddnodi dehongliad arbenigwyr o bwyntiau graddfa, gan gysoni eu sgoriau'n fwy cyson.

- Modelau Damcaniaeth Ymateb i Eitem (IRT) [troednodyn 6]: Modelau ystadegol sy'n ymgorffori senarios cryno i addasu ar gyfer gwahaniaethau yn y ffordd y mae arbenigwyr yn defnyddio graddfeydd (llym neu lac) ac i werthuso pa mor addysgiadol yw ymatebion pob arbenigwr. Mae hyn yn helpu i osod sgôr pob arbenigwr ar un raddfa gyffredin, gan alluogi cydgrynhoi'n fwy dibynadwy.

## 3.2. Canfyddiadau o astudiaeth Delphi – Rownd 2

Roedd ail rownd astudiaeth Delphi yn canolbwyntio ar werthuso'r dangosyddion a roddwyd ar y rhestr fer yn Rownd 1 yn erbyn y Fframwaith Asesu Ansawdd (gweler Atodiad B). Gofynnwyd i arbenigwyr nodi i ba raddau roeddent yn cytuno â'r meini prawf asesu ansawdd ar gyfer cynrychiolaeth, ansawdd ac ymarferoldeb pob dangosydd, a rhoi cipolwg cyd-destunol drwy gwestiynau penagored ym mhob dimensiwn o ddemocratiaeth a archwiliwyd.

### 3.2.1. Dadansoddi'r canfyddiadau o Rownd 2

Mae'r adran hon yn cyflwyno perfformiad pob dangosydd yn erbyn y Fframwaith Asesu Ansawdd, fesul dimensiwn, ynghyd â'r rhesymeg dros gynnwys dangosydd ar y rhestr fer.

I ddechrau, roedd angen i ddangosydd sicrhau cytundeb o 70% o leiaf (cytuno'n gryf + cytuno) ar draws yr holl feini prawf i gael ei roi ar y rhestr fer. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw ddangosydd yn cyrraedd y trothwy hwn. Felly, aethom ati i ddefnyddio dull gweithredu mwy hyblyg. O dan y dull diwygiedig hwn, gellid rhoi dangosydd ar y rhestr fer os oedd yn bodloni'r ddau amod canlynol:

- wedi sicrhau cytundeb o leiaf 70% ar un neu fwy o'r meini prawf asesu ansawdd.
- wedi cyrraedd perfformiad dau flwch uchaf ar gyfartaledd (t2b) a pherfformiad net cyfartalog ar draws meini prawf o dros 50%.

Mae'r adran hon yn crynhoi'r dangosyddion sydd ar y rhestr fer ar gyfer pob dimensiwn, gan amlinellu perfformiad t2b cyfartalog (cytuno'n gryf + cytuno), perfformiad net cyfartalog [(cytuno'n gryf + cytuno) llai (anghytuno + anghytuno'n gryf)], a nifer y meini prawf lle mae pob dangosydd wedi sicrhau cytundeb o 70% neu fwy, ochr yn ochr â sylwadau pellach a rannwyd gan yr arbenigwyr. Mae perfformiad manwl pob dangosydd unigol yn erbyn y meini prawf asesu ansawdd ar gael yn Atodiad C. Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol i'r holl fesurau perfformiad a gyflwynir yn y tablau isod:

- Perfformiad Cyfartalog: Mae hyn yn cyfeirio at gyfran gymedrig y cytundeb, hynny yw, canran gyfun yr ymatebwyr sy'n dewis “Cytuno'n Gryf” a “Cytuno” ar draws yr holl feini prawf asesu ansawdd.

**Troednodiadau**

[6] Mae modelau Damcaniaeth Ymateb i Eitem (IRT) yn helpu i gyfuno data wedi’i godio gan arbenigwyr yn fwy cywir na chyfartaleddau syml, drwy roi cyfrif am wahaniaethau o ran dibynadwyedd a dehongliadau arbenigwyr.

- Perfformiad Net Cyfartalog: Mae'n cynrychioli cyfran gyfartalog y cytundeb ("Cytuno'n Gryf" a "Cytuno") llai'r gyfran gyfartalog o anghytuno ("Anghytuno'n Gryf" ac "Anghytuno") ar draws y meini prawf asesu ansawdd.

- Meini Prawf sy'n Sicrhau Consensws (Nifer): Mae'n cyfeirio at gyfanswm nifer y meini prawf asesu ansawdd y sicrhaodd y dangosydd gonsensws ar eu cyfer (cytundeb o ≥70%).

**Democratiaeth etholiadol**

Yn y dimensiwn hwn, dewiswyd un dangosydd (nad yw'n cael ei fesur yng Nghymru ar hyn o bryd):

1. Cystadleurwydd etholiadau: A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr?

Llwyddodd y dangosydd hwn i sicrhau consensws (70+% yn cytuno) ar yr agweddau ansawdd canlynol:

- bod yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yng Nghymru ar y lefel genedlaethol.
- bod yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yng Nghymru ar y lefel leol.
- ei ymarferoldeb ar gyfer cynnal asesiad ansawdd.
- ei ymarferoldeb ar gyfer olrhain yn gyson dros amser.

Yn gyffredinol, roedd y prif bryderon ar gyfer y rhan fwyaf o ddangosyddion yn y dimensiwn hwn yn ymwneud â rhagfarn. Tynnodd un arbenigwr sylw at yr anhawster o ddiffinio a mesur rhai dangosyddion, fel mynediad teg a chwarae teg, yn enwedig ar lefel leol (er enghraifft, sylw yn y cyfryngau). Ar ben hynny, mynegodd dau arbenigwr bryder y gallai barn ar wleidyddiaeth genedlaethol ddylanwadu ar ymatebion am etholiadau lleol neu ddatganoledig.

**Tabl 7: Dimensiwn Etholiadol - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025**

| Dangosydd | Perfformiad cyfartalog | Perfformiad net cyfartalog | Meini prawf sy'n sicrhau consensws (nifer) | Ar y rhestr fer |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Cystadleurwydd etholiadau:** A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr? | 71% | 68% | 4 | Ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Uniondeb etholiadau:** Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i gofrestru i bleidleisio? | 56% | 49% | 2 | Nac ydy |
| **Cystadleurwydd etholiadau:** A oedd y broses etholiadol yn caniatáu tegwch i bob ymgeisydd, gan gynnwys mynediad teg at gyllid ar gyfer y cyfryngau ac ymgyrchoedd? | 56% | 32% | 2 | Nac ydy |
| **Uniondeb etholiadau:** Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i bleidleisio mewn etholiad? | 52% | 42% | 2 | Nac ydy |
| **Uniondeb etholiadau:** Yn gyffredinol, gan feddwl am bleidleisio mewn etholiad(au), sut byddech chi'n disgrifio pa mor hawdd yw cymryd rhan? | 43% | 35% | 1 | Nac ydy |

**Democratiaeth gyfranogol**

Yn y dimensiwn hwn, dewiswyd y ddau ddangosydd canlynol (y ddau eisoes yn cael eu mesur yng Nghymru):

1. Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau (ystadegau swyddogol): Nifer sy’n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol.

Llwyddodd y dangosydd hwn i sicrhau consensws (70+% yn cytuno) ar yr agweddau ansawdd canlynol:

- casglu'n rheolaidd.
- bod ei ddata ar gael i'r cyhoedd.
- hawdd cael gafael ar y data.
- cael ei gasglu'n gyson dros amser.
- bod mwy na dau bwynt data ar gael.
- adlewyrchu sampl sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru.
- defnyddio dulliau casglu data priodol.

O ran y dangosydd hwn, roedd nifer o gyfranogwyr yn cytuno ei fod yn ddefnyddiol ac yn hawdd ei fesur, ond yn teimlo nad yw'n ddigon ar ei ben ei hun i gyfleu darlun llawn o ymgysylltiad democrataidd yng Nghymru. Rhybuddiodd un arbenigwr hefyd y gall fod yn anodd dehongli ffigurau'r nifer sy'n pleidleisio, gan eu bod yn aml yn adlewyrchu ffactorau y tu hwnt i gyfranogiad democrataidd ei hun, fel hunaniaeth ranbarthol neu ymatebion i ddigwyddiadau gwleidyddol penodol. Hefyd, gall gwallau mewn cofrestrau etholiadol wneud cymharu gwledydd yn gymhleth.

Awgrymodd un arbenigwr y dylid ystyried dangosyddion manylach o gyfranogiad anffurfiol, fel ymwneud â Mudiadau Cymdeithas Sifil, gweithgarwch protest, ysgrifennu llythyrau, neu drafodaethau gwleidyddol. Cyfeiriwyd at ddata gan Brosiect Cymharu Etholiadau Cenedlaethol, Arolwg Gwerthoedd y Byd, a'r Arolwg Cymdeithasol Ewropeaidd fel ffynonellau defnyddiol yn hyn o beth. Cynigiwyd hefyd y dylid edrych ar y nifer a bleidleisiodd fel canran o bleidleiswyr cofrestredig ac fel canran o'r holl bleidleiswyr cymwys, gyda'r olaf o bosibl yn cynnig persbectif ychwanegol ar lefelau cyfranogiad.

2. Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol: “Ydych chi wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem?”

Llwyddodd y dangosydd hwn i sicrhau consensws (70+% yn cytuno) ar yr agweddau ansawdd canlynol:

- casglu'n rheolaidd.
- dadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol.
- bod mwy na dau bwynt data ar gael.
- adlewyrchu sampl sy'n cynrychioli poblogaeth Cymru.
- defnyddio dulliau casglu data priodol.
- bod ei ddata ar gael i'r cyhoedd.
- hawdd cael gafael ar y data.

Croesawyd y dangosydd hwn yn gyffredinol, gyda dau arbenigwr yn cydnabod ei fod yn adlewyrchu ymddygiad gwirioneddol, gan leihau rhagfarn bosibl. Fodd bynnag, nododd un arbenigwr y gallai gwallau adalw neu ragfarn dymunolrwydd cymdeithasol effeithio o hyd ar ddata a hunangofnodir, tra gallai ymateb “na” fod yn amwys. Pwysleisiodd eraill bwysigrwydd sicrhau cynrychiolaeth genedlaethol, gan nodi y byddai mesur y dangosydd hwn ar lefel leol yn gofyn am sampl fawr iawn i gynhyrchu canlyniadau dibynadwy.

**Tabl 8: Dimensiwn Cyfranogol - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025**

| Dangosydd | Perfformiad cyfartalog | Perfformiad net cyfartalog | Meini prawf sy'n sicrhau consensws (nifer) | Ar y rhestr fer |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer sy'n pleidleisio mewn etholiadau (ystadegau swyddogol):** Nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol. | 72% | 69% | 7 | Ydy |
| **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol:** Ydych chi wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? | 67% | 61% | 7 | Ydy |
| **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol:** Ydych chi wedi cysylltu â'ch Aelodau o'r Senedd (ASau) yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem? | 54% | 44% | 2 | Nac ydy |
| **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth anffurfiol:** Dinasyddiaeth fyd-eang weithgar yng Nghymru. | 51% | 40% | 0 | Nac ydy |
| **Ymgysylltu â gwleidyddiaeth ffurfiol:** Ydych chi erioed wedi ceisio dylanwadu ar benderfyniad neu benderfyniadau a wnaed gan y cyngor? | 42% | 34% | 0 | Nac ydy |

Wrth fyfyrio'n gyffredinol ar y dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y dimensiwn cyfranogol, mynegodd un cyfranogwr amheuaeth ynghylch cynnwys Dinasyddiaeth Fyd-eang Weithgar fel dangosydd, gan ddadlau nad yw'r cysyniad wedi'i gysylltu'n glir ag iechyd democrataidd. Nododd cyfranogwr arall fod y diffiniad presennol o gyfranogiad braidd yn gul, ac yn canolbwyntio'n bennaf ar fathau confensiynol o ymgysylltu ac o bosibl yn colli agweddau ehangach ar gyfranogiad dinesig. Codwyd pryder arall ynghylch dibynadwyedd

rhai ffynonellau data, a allai ddibynnu ar grwpiau ffocws neu arolygon arbenigol ac efallai na fyddant yn darparu samplau cynrychioliadol.

### Democratiaeth gydgynghorol

Ni ddewiswyd unrhyw ddangosyddion yn y dimensiwn hwn. Nododd llawer o arbenigwyr wybodaeth gyfyngedig am y dimensiwn hwn a phrosesau casglu data pob dangosydd, ac roeddent yn teimlo nad oedd ganddynt yr arbenigedd i roi asesiadau hyderus, a wnaeth arwain at ymatebion niwtral. Tynnodd rhai sylw hefyd at y ffaith bod mesur gwrthrychedd trafodaeth gyhoeddus yn oddrychol yn ei hanfod ac yn agored i ragfarnau amrywiol, ac efallai na fydd cyfuno sgoriau arbenigwyr drwy gyfartaleddau neu ganolrifau yn dileu'r rhain yn llwyr, er bod methodolegau sefydledig fel V-Dem yn helpu i'w lliniaru. Yn ogystal, awgrymodd un arbenigwr y byddai datblygu Mynegai Ansawdd Disgwrs i Gymru yn ymarferol, er y byddai angen arbenigedd ac adnoddau arbenigol ar gyfer hynny. Roedd un arall yn argymell ehangu mesurau presennol i gofnodi cyfleoedd dinasyddion i ddylanwadu ar benderfyniadau y tu hwnt i fecanweithiau ffurfiol, fel arolygon neu ymgynghoriadau.

**Tabl 9: Dimensiwn Cydgynghorol - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025**

| Dangosydd | Perfformiad cyfartalog | Perfformiad net cyfartalog | Meini prawf sy'n sicrhau consensws (nifer) | Ar y rhestr fer |
|---|---|---|---|---|
| **Gwleidyddion yn defnyddio cyfiawnhad rhesymegol mewn dadleuon (Senedd Cymru):** A yw gwleidyddion yn rhoi cyfiawnhad clir a rhesymegol dros eu safbwyntiau polisi yn ystod dadleuon? | 58% | 42% | 1 | Nac ydy |
| **Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru):** A yw gwleidyddion yn cydnabod ac yn ymgysylltu â gwrthddadleuon neu safbwyntiau amgen a gyflwynir yn ystod dadleuon? | 43% | 37% | 1 | Nac ydy |
| **Parch at wrthddadleuon a gwrthwynebwyr ymysg gwleidyddion (Senedd Cymru):** A yw safbwyntiau croes yn cael eu cynrychioli'n deg, neu a ydynt yn cael eu hystumio neu eu camgyfleu i'w tanseilio? | 40% | 35% | 1 | Nac ydy |

### Democratiaeth gydraddol

Yn y dimensiwn hwn, dewiswyd un o'r ddau ddangosydd (ac mae eisoes yn cael ei fesur yng Nghymru):

1. Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys yn y llywodraeth ac ymhlith deddfwyr: Nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig.

Llwyddodd y dangosydd hwn i sicrhau consensws (70+% yn cytuno) ar yr agweddau ansawdd canlynol:

- dadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol.
- heb unrhyw ffynonellau rhagfarn hysbys.
- bod ei ddata ar gael i'r cyhoedd.
- hawdd cael gafael ar y data.

O ran y dangosydd ar y rhestr fer (cydraddoldeb cynrychiolaeth wleidyddol ymgeiswyr etholedig), un pryder allweddol oedd cynrychiolaeth a manylder y sampl oedd ar gael, yn enwedig o ran sicrhau digon o ddyfnder i ddadansoddi is-grwpiau yn ystyrlon. Tynnodd cyfranogwyr sylw hefyd at bwysigrwydd deall rhwystrau rhag ymgeisio, gan nodi bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i ddehongli'r dangosydd a nodi bylchau posibl o ran cyfranogiad.

O ran y dangosydd nad yw ar y rhestr fer (cydraddoldeb cynrychiolaeth wleidyddol ymgeiswyr), dywedodd un arbenigwr, er bod y niferoedd cyffredinol ar gyfer y Senedd yn gymharol fach ac felly bod modd adolygu proffiliau aelodau yn bersonol, efallai na fydd y dull hwn yn cynnwys yr holl briodoleddau perthnasol yn llawn. Yn benodol, gallai nodweddion nad ydynt yn cael eu datgelu'n gyhoeddus gael eu hanwybyddu, er y gallent fod ar gael drwy arolwg strwythuredig.

**Tabl 10: Dimensiwn Cydraddol - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025**

| Dangosydd | Perfformiad cyfartalog | Perfformiad net cyfartalog | Meini prawf sy'n sicrhau consensws (nifer) | Ar y rhestr fer |
|---|---|---|---|---|
| **Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys yn y llywodraeth ac ymhlith deddfwyr:** Nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig. | 68% | 67% | 4 | Ydy |
| **Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys ymhlith ymgeiswyr:** Nodweddion demograffig-gymdeithasol ymgeiswyr. | 44% | 42% | 2 | Nac ydy |

### Ymatebolrwydd sefydliadol

Yn y dimensiwn hwn, dewiswyd un dangosydd (sy’n cael ei fesur yng Nghymru ar hyn o bryd):

1. Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol: “Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru?”

Llwyddodd y dangosydd hwn i sicrhau consensws (70+% yn cytuno) ar yr agweddau ansawdd canlynol:

- defnyddio dulliau casglu data priodol.
- dadgyfuno yn ôl nodweddion perthnasol.
- bod lefel y dadgyfuno yn ddigonol.
- bod ei ddata ar gael i'r cyhoedd.

Er gwaethaf cytundeb cyffredinol, mynegodd arbenigwr bryder am y dangosydd ar y rhestr fer (bodlonrwydd â sut mae democratiaeth yn gweithio), gan sylwi y gallai'r eitem hon gyfuno bodlonrwydd â democratiaeth fel system â bodlonrwydd â pherfformiad y llywodraeth bresennol.

**Tabl 11: Ymatebolrwydd Sefydliadol - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025**

| Dangosydd | Perfformiad cyfartalog | Perfformiad net cyfartalog | Meini prawf sy'n sicrhau consensws (nifer) | Ar y rhestr fer |
|---|---:|---:|---:|---:|
| **Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol:** Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru? | 60% | 53% | 4 | Ydy |
| **Bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol:** I ba raddau ydych chi'n meddwl bod eich cyngor/cynghorau lleol yn gweithredu ar bryderon trigolion lleol? | 60% | 51% | 0 | Nac ydy |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ymddiriedaeth dinasyddion yn y llywodraeth:** Wrth feddwl pam eich bod yn ymddiried yn y llywodraeth yn gyffredinol neu beidio? | 53% | 48% | 6 | Nac ydy |
| **Cred dinasyddion yn eu gallu i ddylanwadu ar wleidyddiaeth:** I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y gallwch chi ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eich ardal leol? | 53% | 48% | 5 | Nac ydy |

Wrth fyfyrio'n gyffredinol ar y dangosyddion sydd wedi'u cynnwys yn y dimensiwn hwn, canfu un arbenigwr hefyd nad oedd yn glir sut mae ymatebion i'r cwestiwn hwn yn gwahaniaethu rhwng ymddiriedaeth neu fodlonrwydd â'r llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol. Nododd arbenigwr arall fod cwestiynau sy'n ymwneud â'r Arolwg Cenedlaethol o Breswylwyr yn anodd eu gwerthuso oherwydd mynediad cyfyngedig at y data sylfaenol.

### Tryloywder a rhyddid y cyfryngau

Yn y dimensiwn hwn, dewiswyd un dangosydd (nad yw'n cael ei fesur yng Nghymru ar hyn o bryd):

1. Tryloywder y Llywodraeth: A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr?

Llwyddodd y dangosydd hwn i sicrhau consensws (70+% yn cytuno) ar yr agweddau ansawdd canlynol:

- bod yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yng Nghymru ar y lefel genedlaethol.
- bod yn berthnasol i asesu cyflwr presennol democratiaeth yng Nghymru ar y lefel leol.
- ei ymarferoldeb ar gyfer olrhain yn gyson dros amser.

**Tabl 12: Tryloywder a Rhyddid y Cyfryngau - Perfformiad dangosyddion ar y rhestr fer, Medi 2025**

| Dangosydd | Perfformiad cyfartalog | Perfformiad net cyfartalog | Meini prawf sy'n sicrhau consensws (nifer) | Ar y rhestr fer |
|---|---|---|---|---|
| **Tryloywder y Llywodraeth:** A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr? | 59% | 55% | 3 | Ydy |
| **Rhyddid y cyfryngau:** I ba raddau mae darparwyr cyfryngau'n rhydd i adrodd yn feirniadol ar y llywodraeth heb ofni sensoriaeth na dial? | 59% | 47% | 4 | Nac ydy |
| **Tryloywder y Llywodraeth:** A oes strategaeth gwrth-lygredd neu uniondeb cyhoeddus ffurfiol ar waith, ac a yw'n cynnwys amcanion mesuradwy gyda monitro rheolaidd? | 53% | 43% | 2 | Nac ydy |
| **Tryloywder y Llywodraeth:** Ymatebolrwydd Rhyddid Gwybodaeth (FOI) a chyfraddau llwyddiant. | 50% | 31% | 2 | Nac ydy |

O ran y dangosyddion sy'n canolbwyntio ar lygredigaeth (A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr; A oes strategaeth gwrth-lygredd neu uniondeb cyhoeddus ffurfiol ar waith, ac a yw'n cynnwys amcanion mesuradwy gyda monitro rheolaidd), nododd un arbenigwr fod llygredigaeth yn anodd ei hastudio yn ei hanfod oherwydd bod hyn yn weithgaredd cudd. Nodwyd bod methodoleg Mynegai-T ar gyfer mesur tryloywder, yn seiliedig ar ba rai o’r ddau o'r dangosyddion hyn oedd yn cael eu haddasu, yn dibynnu’n bennaf ar arweinwyr busnes, felly roedd yn annhebygol o gynrychioli’r boblogaeth a chyfleu llygredigaeth ar lefel isel.

## 3.3. Canfyddiadau o astudiaeth Delphi – Rownd 3

Roedd rownd olaf ein hastudiaeth Delphi yn canolbwyntio ar gasglu adborth ar y rhestr fer derfynol o chwe dangosydd arfaethedig i fesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. Gan adeiladu ar ganfyddiadau'r ddwy rownd gyntaf, nod y rownd hon oedd cadarnhau consensws ynghylch pa ddangosyddion sydd fwyaf perthnasol, ymarferol a dibynadwy i'w defnyddio yng nghyd-destun Cymru.

### 3.3.1. Dadansoddi'r canfyddiadau o Rownd 3

Gofynnwyd i arbenigwyr sgorio eu cytundeb â phob dangosydd ac egluro eu dewis. Fe'u gwahoddwyd hefyd i roi argymhellion a chynnig mewnbwn ar feysydd lle nad oedd y dangosydd yn bodloni'r meini prawf asesu ansawdd yn y rownd flaenorol. Yn olaf, gofynnwyd iddynt sgorio eu cytundeb ynghylch a yw'r set gyflawn o'r chwe dangosydd ar y rhestr fer gyda'i gilydd yn rhoi set dda o fesurau ar gyfer iechyd democrataidd yng Nghymru.


Mae'r adran hon yn cyflwyno'r perfformiad a'r cipolygon allweddol fesul dangosydd, ac yna sylwadau clo a chrynodeb o'r cytundeb cyffredinol ar draws y set.

#### Dangosydd 1: A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr?

Mae'r dangosydd hwn yn mesur cystadleurwydd etholiadau drwy ddibynnu ar asesiadau arbenigol ynghylch a oedd etholiadau'n rhoi dewisiadau ystyrlon eraill i bleidleiswyr. Mae V-Dem yn asesu hyn drwy ei amrywiolyn ‘Etholiadau aml-blaid’, ac yn yr un modd, mae’r prosiect Canfyddiadau o Uniondeb Etholiadau yn gwerthuso a oedd pleidleiswyr wedi cael dewis gwirioneddol yn y blwch pleidleisio.

Dywedodd cyfanswm o 67% (14) o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno bod y dangosydd hwn yn addas ar gyfer mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. O'r rhain, roedd 29% (6) yn cytuno'n gryf, a 38% (8) yn cytuno. Nid oedd 24% (5) yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 10% (2) yn anghytuno [troednodyn 7].

**Ffigur 1: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 1, Hydref 2025**




**Troednodiadau**

[7] Mae rhai canrannau'n dod i 101% oherwydd eu bod wedi cael eu talgrynnu.

Disgrifiad o ffigur 1: siart far yn dangos consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 1 lle roedd 29% (6) yn cytuno'n gryf, 38% (8) yn cytuno, 24% (5) ddim yn cytuno nac yn anghytuno, a 10% (2) yn anghytuno.

Ffynhonnell: Arolwg arbenigol Delphi, Rownd 3 (n=21)

Pan ofynnwyd iddynt egluro eu sgôr, rhoddodd rhai arbenigwyr a oedd yn cytuno â'r dangosydd adborth cadarnhaol ychwanegol. Er enghraifft, tynnodd un arbenigwr sylw at bwysigrwydd dewis ystyrlon i bleidleiswyr fel conglfaen democratiaeth gynrychiadol. Nododd un arall fod cyflwyno dewisiadau amgen go iawn i bleidleiswyr yn cryfhau ymddiriedaeth yn y broses wleidyddol ac yn annog ymgysylltu. Tynnodd arbenigwr arall sylw at y ffaith bod asesu lefel y dewis a'r gystadleuaeth dros amser, yn genedlaethol ac yn lleol, yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar iechyd cyffredinol democratiaeth ac yn helpu i sicrhau bod etholiadau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn gynrychioliadol i'r etholwyr.

Ar y llaw arall, rhybuddiodd arbenigwyr a oedd yn anghytuno â'r dangosydd, oherwydd natur oddrychol ei asesiad, y gallai gyflwyno rhagfarn, gan adleisio pryderon am ei ddehongliad a godwyd yn Rownd 2. Nododd un arbenigwr fod y term ‘ystyrlon’ yn gallu bod yn amwys, gan awgrymu bod yn rhaid i ymgeiswyr fod yn wahanol iawn, ond mewn gwirionedd efallai eu bod yn rhannu mwy o dir cyffredin nag anghytundeb. Roeddent yn awgrymu bod perygl i hyn fframio democratiaeth fel rhywle lle mae gwrthdaro yn hytrach na chyfaddawdu. Mynegodd rhai arbenigwyr bryderon hefyd am gategorïau aneglur yn y dangosydd, gan gwestiynu a yw'n gwahaniaethu'n glir rhwng dewis pleidiau a dewis ymgeiswyr unigol. Roeddent yn nodi, o dan rai systemau pleidleisio, fel y rheini sy'n seiliedig ar restrau pleidiau, y gallai pleidleiswyr fod â dewis cyfyngedig neu ddim dewis gwirioneddol dros ymgeiswyr penodol, dim ond dros bleidiau.

O ran awgrymiadau i liniaru rhagfarn, awgrymodd rhai arbenigwyr y dylid cyflwyno meini prawf cliriach a mwy gwrthrychol i helpu i liniaru rhagfarn bosibl wrth asesu'r dangosydd hwn. Argymhellodd un arbenigwr y dylid llunio categorïau ymateb pendant, gyda phob lefel yn gysylltiedig ag enghreifftiau penodol yn y byd go iawn i sicrhau cysondeb a thryloywder wrth ddehongli a graddio. Nododd un arall mai man cychwyn da fyddai cynnwys mesurau gwrthrychol, fel nifer yr ymgeiswyr neu'r pleidiau sy'n sefyll mewn etholiadau, gan fod hyn yn darparu sail ffeithiol ar gyfer cymharu. Fodd bynnag, roeddent yn rhybuddio, unwaith y ffurfir barn ansoddol am debygrwydd neu natur unigryw polisïau ymgeiswyr neu bleidiau, bod mwy o risg o ragfarn ymddangosiadol. Tynnodd arbenigwr arall sylw at y ffaith bod dulliau sydd eisoes wedi’u sefydlu yn defnyddio'r dangosydd hwn, gan gyfeirio at y model Damcaniaeth Ymateb i Eitem (IRT) [troednodyn 8] a ddefnyddir yn V-Dem, sy’n helpu i leihau rhagfarn a gwella dibynadwyedd asesiadau ar draws cyd-destunau.

## Troednodiadau


[8] Mae modelau Damcaniaeth Ymateb i Eitem (IRT) yn helpu i gyfuno data wedi’i godio gan arbenigwyr yn fwy cywir na chyfartaleddau syml, drwy roi cyfrif am wahaniaethau o ran dibynadwyedd a dehongliadau arbenigwyr.

### Dangosydd 2: Nifer sy’n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol

Mae’r dangosydd hwn yn defnyddio ystadegau swyddogol i fesur cyfranogiad gwleidyddol drwy olrhain y nifer sy’n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau’r Senedd, ac etholiadau Lleol, ac mae data ar gael ar gyfer pob un o'r rhain.

Dywedodd cyfanswm o 81% (17) o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno bod y dangosydd hwn yn addas ar gyfer mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. O'r rhain, roedd 48% (10) yn cytuno'n gryf, a 33% (7) yn cytuno. Nid oedd 19% (4) yn cytuno nac yn anghytuno.

**Ffigur 2: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 2, Hydref 2025**




Disgrifiad o ffigur 2: siart far yn dangos consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 2 lle roedd 48% (10) yn cytuno'n gryf, 33% (7) yn cytuno, 19% (4) ddim yn cytuno nac yn anghytuno.

Ffynhonnell: Arolwg arbenigol Delphi, Rownd 3 (n=21)

Pan ofynnwyd iddynt ymhelaethu, tynnodd arbenigwyr sylw at nifer o fanteision defnyddio'r nifer sy'n pleidleisio fel dangosydd iechyd democrataidd. Nododd rhai bod y nifer sy'n pleidleisio ar gael yn rhwydd ac yn cynnig mesur meintiol clir o ddemocratiaeth gyfranogol, gan ddangos a yw dinasyddion yn arfer eu hawliau democrataidd yn weithredol. Dywedodd un arbenigwr fod y nifer isel sy'n pleidleisio yn gallu dangos bod pleidleiswyr yn ymddieithrio, diffyg ymddiriedaeth, neu anfodlonrwydd â'r broses wleidyddol, ac mae'r nifer uchel sy'n pleidleisio yn adlewyrchu ymgysylltiad ehangach dinasyddion a dilysrwydd cynrychiolwyr etholedig. Pwysleisiodd arbenigwr arall y gall asesu'r nifer sy'n pleidleisio dros amser, ar draws gwahanol etholiadau, ac yn ôl grwpiau penodol neu ardaloedd daearyddol helpu i nodi patrymau a llywio polisïau i gynyddu cyfranogiad gwleidyddol. Dim ond un rhybudd a godwyd gan arbenigwr, a nododd, er bod y mesur yn werthfawr, na ddylai fod yr unig ddangosydd ar gyfer cymryd rhan, gan ei fod yn adlewyrchu canlyniadau yn hytrach na rhagweld ymgysylltu.

Pan ofynnwyd sut gellid mynd i'r afael â rhagfarn bosibl, er enghraifft, wrth ddehongli neu gasglu data, ar gyfer mesurau nifer sy'n pleidleisio, dywedodd llawer o arbenigwyr nad oeddent yn gweld risg sylweddol o ragfarn, gan fod y mesur yn dibynnu ar ystadegau swyddogol nad ydynt yn gyffredinol yn agored i gael eu camddefnyddio. Nododd un ymatebydd hefyd fod gan Swyddogion Canlyniadau ddyletswydd i gynyddu nifer y pleidleiswyr sy'n cofrestru, sy'n sicrhau cyfranogiad ehangach, er y gall hyn hefyd ehangu gwahaniaethau yn y nifer sy'n pleidleisio.


Pan ofynnwyd am y potensial ar gyfer dadgyfuno, tynnodd arbenigwyr sylw at y ffaith bod angen i'r dangosydd gofnodi nodweddion allweddol. Tynnodd nifer o arbenigwyr sylw at bwysigrwydd dadgyfuno data nifer y pleidleiswyr er mwyn deall patrymau cyfranogiad yn well ar draws gwahanol grwpiau demograffig. Er enghraifft, awgrymodd un y gallai dadgyfuno daearyddol yng Nghymru, fel yn ôl awdurdod lleol neu etholaeth, ddarparu gwybodaeth ychwanegol, gan nodi bod awdurdodau lleol yn cynnig meincnod mwy cyson, o ystyried newidiadau posibl i etholaethau'r Senedd. Awgrymodd arbenigwr arall gasglu gwybodaeth ddemograffig, fel oedran, rhywedd, ethnigrwydd, addysg, incwm a chefndir economaidd-gymdeithasol, i nodi grwpiau sy'n llai tebygol o bleidleisio ac archwilio'r rhesymau dros ymddieithrio. Argymhellwyd hefyd ystyried nodweddion gwarchodedig wrth ddadansoddi data ar y nifer sy’n pleidleisio er mwyn llywio polisïau wedi'u targedu'n well gyda'r nod o gynyddu cyfranogiad. Fodd bynnag, rhybuddiodd un arbenigwr am y cyfyngiadau: ni ellir dadgyfuno data'r pleidleiswyr yn ôl nodweddion personol oherwydd y bleidlais gudd. Er bod data arolygon yn gallu darparu gwybodaeth o'r fath, gall fod yn destun rhagfarn, fel rhagfarn dymunolrwydd cymdeithasol.

**Dangosydd 3: “Ydych chi wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem?”**

Mae'r dangosydd hwn yn mesur a yw pobl yn rhyngweithio'n weithredol â chynrychiolwyr etholedig, drwy gwestiwn arolwg sydd wedi'i gynnwys yn Arolwg Cenedlaethol Cymru.

Dywedodd cyfanswm o 71% (15) o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno bod y dangosydd hwn yn addas ar gyfer mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. O'r rhain, roedd 10% (2) yn cytuno'n gryf, a 61% (13) yn cytuno. Nid oedd 19% (4) yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 10% (2) yn anghytuno.

**Ffigur 3: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 3, Hydref 2025**




Disgrifiad o ffigur 3:  siart far yn dangos consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 3 lle roedd 10% (2) yn cytuno'n gryf, 61% (13) yn cytuno, 19% (4) ddim yn cytuno nac yn anghytuno, a 10% (2) yn anghytuno.

Ffynhonnell: Arolwg arbenigol Delphi, Rownd 3 (n=21)

Bu arbenigwyr yn myfyrio ar y lefel gymedrol hon o gytundeb. Dywedodd un, er nad yw ymgysylltu â chynghorwyr lleol yn fesur annibynnol delfrydol, ei fod yn dal i gynnig cipolwg defnyddiol ar ddealltwriaeth dinasyddion o rolau eu cynrychiolwyr a'r ymddiriedaeth maent yn ei rhoi ynddynt. Dywedodd un arall fod cysylltu â chynghorydd, hyd yn oed os yw hynny'n aml oherwydd problem benodol, yn dangos dinasyddiaeth weithgar a pharodrwydd i ymgysylltu â llywodraethu lleol. Nododd arbenigwr arall fod rhyngweithio o'r fath yn aml yn gysylltiedig â chyflenwi gwasanaethau, gan gynnig persbectif ymarferol ar gyfranogiad dinasyddion mewn prosesau democrataidd a'u perthynas â chynrychiolwyr etholedig.

Ar y llaw arall, tynnodd sawl arbenigwr sylw at rai cyfyngiadau yn y dangosydd hwn. Nododd un, fel gyda holl gwestiynau'r arolwg, ei fod yn agored i hunanddewis a hunangofnodi. Tynnodd yr un arbenigwr sylw hefyd at y ffaith nad yw'n cyfleu ansawdd yr ymgysylltu: er enghraifft, gall dinesydd gysylltu â chynghorydd ond bod yn anfodlon â'r ymateb. Nododd arbenigwr arall fod y dangosydd yn canolbwyntio ar gynghorwyr lleol yn unig ac nad yw'n cynnwys cynrychiolwyr etholedig eraill, fel Aelodau o'r Senedd, Aelodau Seneddol neu gynghorwyr cymuned a thref, ac efallai na fydd ymatebwyr bob amser yn gwahaniaethu rhyngddynt. Pryder arall a fynegwyd oedd, er bod y dangosydd yn darparu mesur digonol o iechyd democrataidd, bod ei sampl effeithiol yn gyfyngedig, gan mai dim ond cyfran fach o'r cyhoedd sy'n cysylltu â chynghorydd. Yn ogystal, awgrymodd rhai arbenigwyr y gallai mathau eraill o gyfranogiad gwleidyddol fod yn fwy perthnasol heddiw: cynigiodd un gymryd rhan mewn Mudiadau Cymdeithas Sifil fel dangosydd gwell, tra bod un arall yn pwysleisio y gallai dinasyddion geisio dylanwadu ar benderfyniadau drwy sianeli eraill heb gysylltu â'u cynghorydd.

Er mwyn bod yn ystyrlon, tynnodd arbenigwyr sylw at y ffaith y dylid olrhain ymgysylltiad â chynghorwyr lleol dros amser yn hytrach nag ar un pwynt. Byddai casglu data'n flynyddol yn ddelfrydol, neu o leiaf dros gylch etholiadol llawn o hyd at bum mlynedd, yn caniatáu i


dueddiadau gael eu harsylwi, gan roi darlun cliriach o newidiadau o ran cyfranogiad ac ymddiriedaeth dinasyddion mewn cynrychiolwyr lleol. Ar ben hynny, nododd rhai arbenigwyr y byddai dadgyfuno'r data yn ôl ardal ddaearyddol neu nodweddion gwarchodedig penodol yn werthfawr, yn ogystal â gwahaniaethu rhwng y mathau o gyswllt mae dinasyddion wedi'i gael â chynghorwyr.

### Dangosydd 4: Nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig

Mae'r dangosydd hwn yn archwilio a yw swyddogion etholedig yn adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas o ran nodweddion demograffig-gymdeithasol, fel rhywedd, oedran, ethnigrwydd ac anabledd (hynny yw, cynrychiolaeth nodweddiadol). Ar gyfer ymgeiswyr y Senedd, defnyddir data o adroddiadau swyddogol (etholiadau Senedd Cymru, 2021), ac ar gyfer ymgeiswyr lleol, cesglir data o Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol.

Dywedodd cyfanswm o 71% (15) o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno bod y dangosydd hwn yn addas ar gyfer mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. O'r rhain, roedd 24% (5) yn cytuno'n gryf, a 47% (10) yn cytuno. Nid oedd 24% (5) yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 5% (1) yn anghytuno'n gryf.

**Ffigur 4: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 4, Hydref 2025**




Disgrifiad o ffigur 4: siart far yn dangos consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 4 lle roedd 24% (5) yn cytuno'n gryf, 47% (10) yn cytuno, 24% (5) ddim yn cytuno nac yn anghytuno, a 5% (1) yn anghytuno'n gryf.

Ffynhonnell: Arolwg arbenigol Delphi, Rownd 3 (n=21)

Wrth egluro eu rhesymeg dros gytuno, tynnodd rhai arbenigwyr sylw at bwysigrwydd archwilio nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig, gan nodi bod hyn yn rhoi cipolwg ar gynrychiolaeth ac yn helpu i sicrhau polisïau teg heb ragfarn. Fodd bynnag, roedd eraill yn anghytuno, gan ddadlau nad yw cynrychiolaeth ddisgrifiadol yn rhagofyniad ar gyfer democratiaeth, gan fod dinasyddion yn rhydd i ethol pwy bynnag y maent yn ei ddewis.

Wrth wneud awgrymiadau ychwanegol, rhybuddiodd un arbenigwr y gallai gwahaniaethau yn nifer y cynrychiolwyr etholedig ar wahanol lefelau, fel rhwng cynghorwyr cymuned ac


Aelodau o'r Senedd, effeithio ar ddehongli'r data. Argymhellodd arbenigwr arall gysoni'r broses o gasglu data demograffig â Chanllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol Llywodraeth Cymru i sicrhau cysondeb ar lefelau llywodraeth leol a'r Senedd. Awgrymodd arbenigwr arall roi Adran 106 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ar waith, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bleidiau gwleidyddol gyhoeddi gwybodaeth ar amrywiaeth eu hymgeiswyr, er mwyn cyflwyno data sy'n fwy cyson. O ran amlder casglu, roedd arbenigwyr yn cytuno ar y cyfan y dylid casglu data yn unol â'r cylch etholiadol.

**Dangosydd 5: "Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru?"**

Mae'r dangosydd hwn yn mesur bodlonrwydd â democratiaeth yn y DU ac yng Nghymru, drwy gwestiwn arolwg yn Astudiaeth o Etholiadau Cymru (2019).

Dywedodd cyfanswm o 81% (17) o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno bod y dangosydd hwn yn addas ar gyfer mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. O'r rhain, roedd 38% (8) yn cytuno'n gryf, a 43% (9) yn cytuno. Nid oedd 10% (2) yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 10% (2) yn anghytuno.

**Ffigur 5: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 5, Hydref 2025**




Disgrifiad o ffigur 5: siart far yn dangos consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 5 lle roedd 38% (8) yn cytuno'n gryf, 43% (9) yn cytuno, 10% (2) ddim yn cytuno nac yn anghytuno, a 10% (2) yn anghytuno.

Ffynhonnell: Arolwg arbenigol Delphi, Rownd 3 (n=21)

Roedd arbenigwyr yn cytuno'n fras bod mesur bodlonrwydd yn ddangosydd pwysig o iechyd democrataidd, yn enwedig o'i gyfuno â mesurau eraill, fel ymddiriedaeth yn y Senedd a Llywodraeth Cymru. Nododd un arbenigwr y gall helpu i fesur hyder dinasyddion mewn sefydliadau democrataidd a nodi unrhyw ymddieithrio posibl. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai arbenigwyr y gallai lefelau bodlonrwydd gyfuno canfyddiadau o berfformiad y llywodraeth â bodlonrwydd democrataidd ehangach, gan gyflwyno rhagfarn bosibl.


Gan rannu barn ar ragfarn bosibl yn y dangosydd hwn, cydnabu un arbenigwr fod rhywfaint o ragfarn yn anochel wrth fesur agweddau, ond pwysleisiodd nad yw hyn o reidrwydd yn broblem os bydd y data'n cael ei ddehongli'n ofalus. Roeddent yn tynnu sylw at bwysigrwydd casglu gwybodaeth ddemograffig a, lle bo'n bosibl, cysylltu ymatebion ag ymddygiad pleidleisio er mwyn deall yn well sut mae dewisiadau gwleidyddol yn llywio canfyddiadau o ddemocratiaeth. Nododd arbenigwyr eraill y gallai gwahaniaethau mewn dealltwriaeth wleidyddol ymysg ymatebwyr hefyd effeithio ar gywirdeb y canlyniadau. O ran amlder casglu data, nododd un arbenigwr y gall ymatebion amrywio dros amser oherwydd cyd-destunau gwleidyddol newidiol neu ddadleuon cyhoeddus, gan danlinellu pwysigrwydd casglu data'n rheolaidd i olrhain tueddiadau'n gyson ar draws tymhorau'r llywodraeth.

### Dangosydd 6: A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr?

Mae'r dangosydd hwn yn dibynnu ar farn arbenigwyr i asesu a oes modd adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mawr ynghylch polisi a gwariant yn gyhoeddus. Mae'n seiliedig ar y Fethodoleg Mynegai-T ar gyfer mesur tryloywder, sy'n gwerthuso argaeledd gwybodaeth am wariant i'r cyhoedd.

Dywedodd cyfanswm o 71% (15) o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno bod y dangosydd hwn yn addas ar gyfer mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. O'r rhain, roedd 24% (5) yn cytuno'n gryf, a 47% (10) yn cytuno. Nid oedd 24% (5) yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 5% (1) yn anghytuno.

**Ffigur 6: Consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 6, Hydref 2025**




Disgrifiad o ffigur 6: siart far yn dangos consensws arbenigwyr ar gynnwys Dangosydd 6 lle roedd 24% (5) yn cytuno'n gryf, 47% (10) yn cytuno, 24% (5) ddim yn cytuno nac yn anghytuno, a 5% (1) yn anghytuno.

Ffynhonnell: Arolwg arbenigol Delphi, Rownd 3 (n=21)


Amlygwyd cysylltiadau cadarnhaol y gallai'r dangosydd hwn ddarparu asesiad defnyddiol o iechyd democrataidd o'i ystyried ochr yn ochr â chyfres ehangach o fesurau. Hyd yn oed pan oedd un arbenigwr yn ansicr ynghylch yr union fethodoleg, roedd yn cytuno mai dyma oedd yr opsiwn cryfaf o blith y chwe dangosydd a oedd wedi'u cynnwys yn y rhestr fer derfynol.

Ar y llaw arall, mynegodd nifer o arbenigwyr bryderon am y dangosydd hwn, gan nodi bod Gweinidogion unigol neu aelodau cabinet llywodraeth leol yn gyfrifol yn ymarferol am benderfyniadau polisi mawr a gwariant cysylltiedig, felly gallai cyfuno atebolrwydd wanhau'r egwyddor hon. Roeddent hefyd yn tynnu sylw at y ffaith bod prosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd yng Nghymru yn gymhleth, yn cynnwys sawl haen o lywodraeth a datganoli nad ydynt yn unffurf nac yn gyson â'r rheini mewn rhannau eraill o'r DU. Awgrymodd un arbenigwr fod y dangosydd i bob pwrpas yn cynnwys dwy elfen wahanol: (i) a ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, sy'n mesur tryloywder, a (ii) a ellir dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol, sy'n ymwneud â rheol gyfreithiol.

### Perfformiad cyffredinol a sylwadau i gloi

Roedd y rhan fwyaf o'r arbenigwyr (62%, 13 arbenigwr) yn cytuno bod y chwe dangosydd yn darparu set dda o fesurau ar gyfer iechyd democrataidd yng Nghymru. O'r rhain, roedd 5% (1) yn cytuno'n gryf, a 57% (12) yn cytuno. Nid oedd 28% (6) yn cytuno nac yn anghytuno, ac roedd 5% (1) yn anghytuno a 5% (1) yn anghytuno.

**Ffigur 7: Consensws arbenigwyr ar y rhestr derfynol o ddangosyddion, Hydref 2025**




Disgrifiad o ffigur 7: siart far yn dangos consensws arbenigwyr ar y rhestr derfynol o ddangosyddion lle roedd 5% (1) yn cytuno'n gryf, 57% (12) yn cytuno, 28% (6) ddim yn cytuno nac yn anghytuno, a 5% (1) yn anghytuno'n gryf.

Ffynhonnell: Arolwg arbenigol Delphi, Rownd 3 (n=21)

Ymysg yr ychydig arbenigwyr a roddodd sylwadau ar eu cytundeb neu anghytundeb, mynegodd un bryderon bod dangosyddion penodol (Dangosyddion 1 a 3) yn aneffeithiol neu'n broblemus. Nododd un arbenigwr fod y dangosyddion yn hepgor agweddau “rhyddfrydol” pwysig, fel rhwystrau a gwrthbwysau a rheol gyfreithiol, sy'n hanfodol oherwydd bod bygythiadau cyfoes i ddemocratiaeth yn aml yn dod gan lywodraethau sy'n canolbwyntio gormod o bŵer. Roedd arbenigwr arall a oedd yn cytuno â'r dewis hefyd yn argymell cynnwys mesurau o fathau amgen o gyfranogiad, ymddiriedaeth wleidyddol, ac o bosibl asesiad wedi'i godio gan arbenigwyr o uniondeb prosesau etholiadol.

Yn gyffredinol, cafodd y dangosyddion eu gwerthuso’n gadarnhaol ar y cyfan gan arbenigwyr. Roedd yr holl ddangosyddion yn uwch na'r trothwy cytundeb o 70%, ar wahân i ddangosydd 1, a oedd ar y ffin (67% yn cytuno). Cafodd pob dangosydd sgôr cytundeb net o dros 50%, ac ar gyfartaledd, cofnododd y dangosyddion gyfanswm o 74% o gytundeb a 67% o gytundeb net.

**Tabl 13: Cytundeb a chytundeb net â dangosyddion, Hydref 2025**

| **Dangosydd** | **Cyfanswm cytundeb** | **Cytundeb net** |
|---|---:|---:|
| **Dangosydd 1 – Democratiaeth Etholiadol** | 67% | 57% |
| **Dangosydd 2 – Democratiaeth Gyfranogol A** | 81% | 81% |
| **Dangosydd 3 – Democratiaeth Gyfranogol B** | 71% | 61% |
| **Dangosydd 4 – Democratiaeth Gydraddol** | 71% | 66% |
| **Dangosydd 5 – Ymatebolrwydd Sefydliadol** | 81% | 72% |
| **Dangosydd 6 – Tryloywder a Rhyddid y Cyfryngau** | 71% | 66% |
| ***Perfformiad cyfartalog y dangosydd*** | *74%* | *67%* |
| **Set gyflawn o 6 dangosydd** | 62% | 52% |

[Nodyn 1] Mae cyfanswm cytundeb yn cyfeirio at gyfanswm yr ymatebion “Cytuno'n Gryf” a “Cytuno” ar gyfer pob dangosydd.

[Nodyn 2] Mae cytundeb net yn cyfeirio at gyfanswm yr ymatebion “Cytuno'n gryf” a “Cytuno” llai cyfanswm yr ymatebion “Anghytuno” ac “Anghytuno'n gryf” ar gyfer pob dangosydd.

[Nodyn 3] Mae perfformiad cyfartalog dangosydd yn cyfeirio at sgoriau cytundeb neu gytundeb net y dangosydd cyfartalog cyffredinol.

# 4. Casgliadau

Arweiniodd astudiaeth Delphi at set o chwe dangosydd a oedd yn cael eu hystyried yn effeithiol ac yn berthnasol ar gyfer mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. Mae'r dangosyddion hyn yn cynrychioli pump allan o chwe dimensiwn craidd iechyd democrataidd, a democratiaeth gydgynghorol yw'r unig ddimensiwn nad yw wedi'i gynnwys yn y rhestr fer, yn bennaf oherwydd y dulliau arbenigol a natur oddrychol y mesurau sydd eu hangen i gasglu dangosyddion cydgynghorol.

Dyma'r dangosyddion ar y rhestr fer:

1. **Democratiaeth Etholiadol:** A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr? Nid yw'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n gofyn am ddadansoddiad arbenigol i asesu a oedd gan bleidleiswyr ddewisiadau gwirioneddol mewn etholiad. Mae V-Dem yn mesur hyn drwy ei amrywiolyn 'Etholiadau aml-blaid', ac mae'r prosiect Canfyddiadau o Uniondeb Etholiadau yn gwerthuso a oedd pleidleiswyr wedi cael dewis gwirioneddol yn y blwch pleidleisio.
2. **Democratiaeth Gyfranogol:** Nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol. Mae'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'n mesur cyfran y pleidleiswyr cymwys sydd yn bwrw pleidlais mewn gwirionedd, ar sail cofnodion swyddogol etholiadau cyffredinol, etholiadau'r Senedd, ac etholiadau lleol.
3. **Democratiaeth Gyfranogol:** "Ydych chi wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem?" Mae'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Casglwyd y pwyntiau data sydd ar gael ar gyfer y dangosydd hwn drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru rhwng 2018 a 2022.
4. **Democratiaeth Gydraddol:** Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys yn y llywodraeth a deddfwyr: nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig. Mae'r dangosydd hwn yn cael ei gasglu yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r pwyntiau data sydd ar gael ar gyfer y dangosydd hwn yn cael eu casglu drwy Arolwg Ymgeiswyr Llywodraeth Leol (yn amodol ar gyfraddau ymateb) a Chofrestr Ymgeiswyr Etholiadau'r Senedd (nid yw'r gofrestr yn un hunangofnodi, ond mae'n cael ei chasglu o adroddiadau arbenigwyr).
5. **Ymatebolrwydd Sefydliadol:** "Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru?" Mae'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd, a chaiff ei gasglu fesul cyfnod fel rhan o Astudiaeth Etholiadau Cymru.
6. **Tryloywder a Rhyddid y Cyfryngau:** A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr? Nid yw'r dangosydd hwn ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae'r dull hwn yn defnyddio'r fethodoleg Mynegai-T ar gyfer asesu tryloywder, gan ddefnyddio'r Mynegai Canfyddiadau o Lygredigaeth yn benodol. Mae'r mesur yn seiliedig ar 14 o gwestiynau wedi'u codio gan arbenigwyr.

Ceir trosolwg dadansoddol manwl o bob dangosydd sydd ar y rhestr fer yn Atodiad D.

## 4.1 Sylwadau i gloi

Drwy dair rownd o ymgysylltu ag arbenigwyr, llwyddodd astudiaeth Delphi i ddatblygu set o chwe dangosydd i fesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru. Mae'r adran olaf hon yn dwyn ynghyd y canfyddiadau ar draws tri cham astudiaeth Delphi, gan dynnu sylw at y cydgysylltiadau rhwng dangosyddion, y ddealltwriaeth ehangach o ddemocratiaeth a ddaeth i'r amlwg o drafodaethau arbenigol, materion methodolegol allweddol, a datblygiadau perthnasol y llywodraeth.

Datgelodd yr ymchwil gonsensws arbenigol ynghylch set benodol o chwe dangosydd sy'n cwmpasu pump o’r chwe dimensiwn democrataidd a gynigiwyd yn wreiddiol: democratiaeth etholiadol, democratiaeth gyfranogol (2 ddangosydd), democratiaeth gydraddol, ymatebolrwydd sefydliadol, a thryloywder a rhyddid y cyfryngau. Yn benodol, nid oedd unrhyw ddangosyddion o'r dimensiwn democratiaeth gydgynghorol yn bodloni'r meini prawf ar gyfer y rhestr fer, gan adlewyrchu'n bennaf bryderon arbenigwyr am y goddrychedd sy'n rhan annatod o asesu ansawdd cydgynghori a'u diffyg hyder yn y dulliau mesur sydd ar gael sydd wedi'u codio gan arbenigwyr ar gyfer pob dangosydd yn y dimensiwn hwn. Roedd consensws o 62% ymhlith arbenigwyr ar gyfer y set ar y rhestr fer.

Drwy gydol yr astudiaeth, cododd arbenigwyr nifer o ystyriaethau ynghylch casglu data a chadernid methodolegol. Ar gyfer dangosyddion sy'n seiliedig ar farn arbenigol, roeddent yn tanlinellu pwysigrwydd diffiniadau cysyniadol clir, fframweithiau codio tryloyw, a, lle bo hynny'n ymarferol, defnyddio technegau fel IRT i gyfrif am amrywiad mewn sgoriau arbenigwyr ac i osgoi gorddibynnu ar asesiad unrhyw ymatebydd unigol. Ar gyfer dangosyddion sy'n deillio o ystadegau swyddogol, tynnodd arbenigwyr sylw at eu dibynadwyedd a'u cymaroldeb dros amser. Ond nodwyd hefyd y gallai ffynonellau o'r fath anwybyddu mathau anffurfiol neu newydd o ymgysylltu democrataidd ac y gallant gael eu cyfyngu gan ddosbarthiadau ac arferion adrodd presennol. Ar gyfer dangosyddion sy'n seiliedig ar arolygon, cyfeiriodd arbenigwyr at risgiau o ran rhagfarn dymunoldeb cymdeithasol, camgofnodi, a gwahaniaethau o ran perthnasedd ar draws grwpiau, gan bwysleisio'r angen am eirio cwestiynau’n ofalus a dadgyfuno yn ôl newidynnau demograffig a daearyddol allweddol.

### 4.1.1. Rhoi'r chwe dangosydd sydd ar y rhestr fer mewn cyd-destun: Safbwyntiau a datblygiadau diweddar yng Nghymru

Ar ôl nodi'r chwe dangosydd terfynol, mae'r adran hon yn gosod pob mesur o fewn ei gyd-destun polisi ac empirig ehangach. Mae'n crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd gan arbenigwyr ar gyfyngiadau a dehongli, gan nodi hefyd ddatblygiadau diweddar yng Nghymru sy'n debygol o siapio eu defnydd a'u perthnasedd yn y dyfodol.

#### Dangosydd 1: A oes gan bleidleiswyr ddewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr?

Mae'r dangosydd hwn yn asesu a yw etholiadau'n cynnig dewisiadau amgen gwirioneddol i bleidleiswyr, sy'n cael eu hystyried yn un o egwyddorion craidd democratiaeth gynrychioladol. Pan fydd dewis ystyrlon yn bodoli, mae pleidleiswyr yn gallu mynegi eu dewisiadau'n well, dal swyddogion etholedig i gyfrif, a chynnal ymddiriedaeth ac

ymgysylltiad â'r broses wleidyddol. Pwysleisiodd arbenigwyr hefyd fod archwilio cystadleurwydd dros amser, yn genedlaethol ac yn lleol, yn cynnig cipolwg gwerthfawr ar iechyd ehangach democratiaeth.

Mesurir cystadleurwydd etholiadau drwy asesiadau arbenigol sy'n gwerthuso a yw etholiadau wir yn cynnwys aml-bleidiau, a oes gan bleidleiswyr ddewisiadau eraill go iawn wrth bleidleisio, ac a all pleidiau gwleidyddol ffurfio a gweithredu'n rhydd heb gyfyngiadau gormodol. Mae rhagor o wybodaeth am sut mae cystadleurwydd etholiadau yn cael ei fesur yn fyd-eang ar gael yn Atodiad D.

Mae democratiaethau'r Gorllewin yn sgorio'n uchel ar y dangosydd hwn fel arfer, ac ystyrir bod Cymru'n perfformio'n gryf mewn termau cymharol (Nord et al, 2025). Fodd bynnag, gallai proses arfaethedig diwygio'r Senedd (Llywodraeth Cymru, 2024c), newid y dirwedd. O 2026 ymlaen, bydd nifer Aelodau'r Senedd yn cynyddu o 60 i 96 (ibid). Ar ben hynny, bydd diwygio system bleidleisio'r Senedd yn ddiweddar, gan symud i system gyfannol rhestr gaeedig o 2026 ymlaen, yn cael effaith uniongyrchol: bydd pleidleiswyr nawr yn dewis plaid a bydd seddi'n cael eu dyrannu yn unol â rhestrau pleidiau, sy'n golygu bod eu gallu i ddewis ymgeiswyr penodol yn fwy cyfyngedig. Nod y newid hwn yw sicrhau mwy o gymesuredd, ond gall arwain at grynodi dewis ar lefel plaid, gan godi cwestiynau am gynrychiolaeth unigol a chystadleuaeth ymhlith ymgeiswyr (Ymchwil y Senedd, 2024b).

**Dangosydd 2: Nifer sy'n pleidleisio yn yr etholiadau Cyffredinol, etholiadau'r Senedd ac etholiadau Lleol**

Mae'r dangosydd hwn yn mesur cyfran y pleidleiswyr cymwys sy'n cymryd rhan mewn etholiadau cyffredinol, cenedlaethol a lleol. Mae hyn yn aml yn cael ei ystyried yn arwydd sylfaenol o ymgysylltiad y cyhoedd â phrosesau democrataidd ffurfiol. Er bod y nifer sy'n pleidleisio yn cael ei fonitro'n eang ar draws democratiaethau sydd wedi'u sefydlu, nododd arbenigwyr yn yr astudiaeth mai dim ond safbwynt rhannol ar iechyd democrataidd y mae'n ei gynnig, gan ddweud na ddylid ei ddehongli ar wahân i fathau eraill o weithgarwch dinesig.

Y ganran a bleidleisiodd yn etholiad y Senedd yn 2021 oedd 47%, y cofnod uchaf erioed ar gyfer etholiad y Senedd (Ymchwil y Senedd, 2021), ond eto roedd yn dal yn golygu nad oedd y rhan fwyaf o bleidleiswyr cymwys wedi pleidleisio. Disgynnodd canran y pleidleiswyr yn etholiadau lleol 2022 i 38.7%, tua 4 pwynt canran yn is nag yn 2017 (Y Comisiwn Etholiadol, 2022). Mewn ymateb, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Cyfraith Cymru, 2025), sy'n cynnwys darpariaethau sy'n rhoi pwerau i weinidogion Cymru dreialu newidiadau i sut mae pleidleisiau'n cael eu bwrw mewn etholiadau datganoledig, ac mae wedi'i fframio'n benodol fel ymgais i gynyddu nifer y bobl sy'n pleidleisio ac yn ymgysylltu. Elfen ganolog yw cyflwyno cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig, lle byddai Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn ychwanegu etholwyr cymwys at y gofrestr ac yn eu hysbysu, gyda chyfnod penodol i wrthwynebu neu i wneud cais i gofrestru'n ddienw. Yn 2025, mae cofrestru pleidleiswyr yn awtomatig yn cael ei dreialu mewn pedwar awdurdod lleol yng Nghymru, gan ddefnyddio data lleol i ychwanegu pleidleiswyr cymwys at y gofrestr heb fynnu eu bod yn gwneud cais, gyda chyfle i optio allan a pheidio â chael eu cynnwys ar y gofrestr agored (Llywodraeth Cymru, 2025a). Bydd y Comisiwn Etholiadol yn gwerthuso'r cynlluniau peilot hyn cyn bwrw ymlaen ag unrhyw

ddeddfwriaeth bellach i gyflwyno cofrestru awtomatig ar gyfer etholiadau'r Senedd, etholiadau llywodraeth leol Cymru, a refferenda datganoledig, ond nid ar gyfer etholiadau cyffredinol y DU nac etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (Ymchwil y Senedd, 2024c).

#### Dangosydd 3: "Ydych chi wedi cysylltu â'ch cynghorydd lleol yn ystod y 12 mis diwethaf, er enghraifft, gydag ymholiad, cwyn neu broblem?"

Mae'r dangosydd hwn yn arwydd o ymgysylltiad â gwleidyddiaeth leol ffurfiol. Nododd arbenigwyr y dylai datblygiadau yn y dyfodol gynnwys sbectrwm ehangach o gyfranogiad gwleidyddol, gan gynnwys mathau mwy anffurfiol neu ddigidol o ymgysylltu sy'n fwyfwy perthnasol, yn enwedig ar ôl y pandemig. Roedd arbenigwyr yn gweld gwerth yn y dangosydd hwn fel arwydd syml o ymgysylltu â gwleidyddiaeth leol ffurfiol, ond nodwyd sawl cafeat. Mae hunanddewis a hunangofnodi yn effeithio ar hyn a dim ond yn cynnwys cyswllt â chynghorwyr lleol yn hytrach na chynrychiolwyr eraill neu fathau mwy anffurfiol a digidol o gyfranogiad, a all fod yr un mor bwysig.

Casglwyd y pwyntiau data a oedd ar gael ar gyfer y dangosydd hwn drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru rhwng 2018 a 2022 (2018 i 2019, 2020 i 2021, 2021 i 2022). Nid oedd unrhyw amrywiad mawr wedi'i gofnodi rhwng y tri chyfnod hyn, gydag 16% yn dweud eu bod wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol yn 2018 i 2019, 17% yn 2020 i 2021, a chanran y bobl a ymatebodd eu bod wedi cysylltu â'u cynghorydd lleol yn gostwng ychydig i 15% yn 2021 i 2022 (Llywodraeth Cymru, 2025b).

#### Dangosydd 4: Cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth ddemograffig gytbwys yn y llywodraeth ac ymhlith deddfwyr: Nodweddion demograffig ymgeiswyr etholedig

Mae'r dangosydd hwn yn asesu i ba raddau y mae cynrychiolwyr etholedig yn adlewyrchu proffil demograffig y boblogaeth ac mae'n cael ei ddefnyddio yma fel procsi ar gyfer cydraddoldeb ymgysylltiad gwleidyddol a chynrychiolaeth gytbwys mewn llywodraeth a deddfwrfeydd. Wrth ddehongli canlyniadau Cymru, mae'n bwysig cydnabod cyfyngiadau'r data sylfaenol. Ar gyfer llywodraeth leol, daw gwybodaeth am nodweddion ymgeiswyr o'r Arolwg Ymgeiswyr Lleol, sydd â chyfraddau ymateb cymharol isel ac felly efallai na fydd yn cofnodi amrywiaeth y rhai sy'n sefyll mewn etholiad yn llawn. Ar gyfer etholiadau'r Senedd, mae'r data sydd ar gael ar ymgeiswyr wedi'i gyfyngu'n bennaf i rywedd ac ethnigrwydd, gan roi darlun rhannol yn unig o gynrychioldeb a hepgor nodweddion perthnasol eraill, fel anabledd, cefndir economaidd-gymdeithasol, neu gyfeiriadedd rhywiol. Dylid nodi hefyd nad yw'r data sydd ar gael ar nodweddion ymgeiswyr etholedig y Senedd yn cael eu hunangofnodi ond eu bod yn deillio o adroddiadau arbenigwyr.

Mae'r dangosydd hwn wedi'i fframio o fewn nod ehangach Llywodraeth Cymru i sicrhau bod pobl o bob cefndir yn gallu cymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus a gweld eu hunain yn cael eu hadlewyrchu mewn swyddi arwain, fel y nodir yn ei Hamcanion Cydraddoldeb Cenedlaethol. Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau newydd i bleidiau gwleidyddol, y disgwylir iddynt nawr ddatblygu a chyhoeddi strategaethau amrywiaeth a chynhwysiant, adolygu data amrywiaeth ar gyfer eu hymgeiswyr a'u haelodau

etholedig, a defnyddio'r dystiolaeth hon i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth drwy gydol taith yr ymgeisydd, o gamau recriwtio a dethol i gefnogi a diogelu (Llywodraeth Cymru, 2025c).

### Dangosydd 5: "Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon â'r ffordd y mae democratiaeth yn gweithio: a) yn y DU yn ei chyfanrwydd; b) yng Nghymru?"

Mae bodlonrwydd dinasyddion yn adlewyrchu canfyddiadau cyffredinol o berfformiad y system, ond gall digwyddiadau diweddar ac arferion pleidiol-wleidyddol ddylanwadu ar hyn. Mae'n cyfleu prif safbwynt defnyddiol, ond eto gall amrywio yn ôl pleidgarwch llywodraethau neu ddadleuon ynghylch polisïau unigol, fel y gwelwyd yn y gwaith ymchwil olrhain diweddar yng Nghymru. Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos bod sgoriau llesiant democrataidd yn dal yn isel a heb newid fawr, gyda lefelau cymharol uchel o ymddiriedaeth isel yn Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, yn Aelodau'r Senedd ac mewn cynghorau lleol, gyda chyfrannau isel iawn o bobl yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau (Carnegie UK, 2025). Mae'r dangosydd hwn yn cael ei gasglu fesul cyfnod ar hyn o bryd, fel rhan o Astudiaeth o Etholiadau Cymru (2019 yw'r cyfnod diweddaraf), gyda'r Astudiaeth ar fin cael ei chynnal eto yn 2026.

### Dangosydd 6: A ellir adnabod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a'u dal yn atebol am benderfyniadau polisi a gwariant mawr?

Mae'r dangosydd hwn yn gwerthuso a all dinasyddion nodi'n glir pwy sy'n gyfrifol am benderfyniadau polisi ac ariannol allweddol, ac a oes digon o dryloywder i ddal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn atebol. Mae atebolrwydd yn un o egwyddorion canolog llywodraethiant democrataidd: pan fydd gwybodaeth am wariant cyhoeddus, dewisiadau polisi, a goruchwyliaeth sefydliadol ar gael, mae dinasyddion yn gallu craffu'n well ar weithredoedd y llywodraeth, herio ar achosion o gamddefnyddio pŵer, a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er budd y cyhoedd. Mae'r asesiad yn defnyddio methodoleg tryloywder y Mynegai-T, sy'n mesur pa mor agored mae llywodraethau'n cyhoeddi gwybodaeth hanfodol ar-lein a pha mor hawdd yw cael gafael arni, ar sail 14 o gwestiynau wedi'u codio gan arbenigwyr (sy'n cael eu hamlinellu'n llawn yn Atodiad D).

Yn ymarferol, mae hyn yn golygu ystyried a yw prosesau gwneud penderfyniadau, dyraniadau ariannol, a goruchwyliaeth sefydliadol yn amlwg ac yn ddealladwy i'r cyhoedd, ac a oes gan ddinasyddion yr adnoddau i ddal swyddogion yn gyfrifol am eu gweithredoedd. Mae gwledydd sy'n perfformio'n dda ar y dangosydd hwn yn dangos systemau cadarn ar gyfer datgelu, goruchwylio ac atebolrwydd, gan feithrin ymddiriedaeth mewn sefydliadau democrataidd.

# 5. Argymhellion

Mae'r dangosyddion sydd ar y rhestr fer o dan ddemocratiaeth etholiadol a thryloywder a rhyddid y cyfryngau yn destun dadansoddiad arbenigol, ac nid yw'r naill na’r llall ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Atodiad D yn amlinellu'r fframweithiau a'r dulliau allweddol a ddatblygwyd ar gyfer mesur y ddau ddangosydd hyn mewn mannau eraill, a all fod yn ddefnyddiol fel canllawiau ar gyfer cyflwyno'r rhain yng Nghymru. O ran rhoi dangosyddion ar waith sy'n gofyn am ddadansoddiad arbenigol, darparodd y Panel Arbenigol awgrymiadau defnyddiol iawn hefyd yn Rownd 1 astudiaeth Delphi, yn enwedig pan ofynnwyd iddynt am fesurau diogelu a allai leihau rhagfarn a gwella cymaroldeb dros amser wrth ddefnyddio codio arbenigol i asesu dangosyddion democrataidd (darllenwch yr adran ‘Canfyddiadau o astudiaeth Delphi – Rownd 1’).

Mae’r pedwar dangosydd arall, er eu bod yn cael eu casglu yng Nghymru ar hyn o bryd, yn cynnwys heriau hefyd. Yn wir, profodd Rownd 2 astudiaeth Delphi nad oes dangosydd perffaith ar gyfer mesur a monitro unrhyw un o elfennau iechyd democrataidd, gan nad oedd unrhyw ddangosydd wedi cyrraedd y trothwy cytundeb o 70% o leiaf (cytuno'n gryf + cytuno) ar draws yr holl feini prawf asesu ansawdd, er gwaethaf y rhestr helaeth o ddangosyddion a brofwyd yn erbyn y Fframwaith Asesu Ansawdd yn Rownd 2. Felly, yn Rownd 3 astudiaeth Delphi, gofynnwyd i arbenigwyr sut gellir cryfhau meysydd sy'n tanberfformio ym mhob dangosydd. Rhannwyd adborth defnyddiol o ran lliniaru rhagfarn, gwella prosesau dadgyfuno data ac amlder casglu data, a gwella trefniadau olrhain dros amser, ochr yn ochr ag awgrymiadau pwysig eraill (darllenwch yr adran ‘Canfyddiadau o astudiaeth Delphi – Rownd 3’). Felly, er bod pedwar o'r chwe dangosydd sydd ar y rhestr fer eisoes yn cael eu casglu yng Nghymru, argymhellir bod y mewnbwn arbenigol a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth hon yn dal i gael ei ystyried i benderfynu a oes lle i wneud y dangosyddion presennol yn fwy effeithiol o ran mesur a monitro iechyd democrataidd.

Yn olaf, deellir y gall fod angen llawer o adnoddau ac amser i sefydlu dau ddangosydd newydd. Er mwyn gallu mesur a monitro iechyd democrataidd yng Nghymru yn y cyfamser, mae dau ddangosydd amgen, sy'n cofnodi agweddau tebyg, wedi cael eu nodi. Fodd bynnag, mae’r ddau ddewis amgen yn cynnwys cafeatau, gan fod y dangosyddion hyn wedi cael sgoriau llai ffafriol yn Rownd 2, felly efallai nad ydynt yn bodoli’r set o feini prawf yn llawn.

Felly, mae'r tîm ymchwil wedi nodi dangosydd amgen ar gyfer pob dangosydd nad yw ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Gellid disodli'r dangosydd cystadleurwydd etholiadau sy'n mesur dewisiadau ystyrlon rhwng ymgeiswyr â dangosydd arall o'r un dimensiwn democratiaeth etholiadol, er ei fod yn cofnodi uniondeb etholiadau, nid cystadleurwydd: “Pa mor hyderus, os o gwbl, ydych chi eich bod yn gwybod sut i fynd ati i gofrestru i bleidleisio?” (a fesurir yng Nghymru ar hyn o bryd drwy’r Arolwg o Agweddau’r Cyhoedd). Fodd bynnag, nid oedd dewis arall o'r dimensiwn tryloywder a rhyddid y cyfryngau i ddisodli dangosydd tryloywder y llywodraeth ar atebolrwydd am benderfyniadau polisi a gwariant mawr. Felly daw'r ail ddewis o'r dimensiwn ymatebolrwydd sefydliadol, sy’n cofnodi bodlonrwydd dinasyddion â'r llywodraeth a'r system wleidyddol: “I ba raddau ydych chi'n meddwl bod eich cyngor/cynghorau lleol yn gweithredu ar bryderon trigolion lleol?” (a fesurir yng Nghymru ar

hyn o bryd drwy'r Arolwg Cenedlaethol o Breswylwyr). Mae ystyried y ddau ddangosydd newydd hyn yn lleihau ymhellach y dimensiynau a gynrychiolir yn y set derfynol o chwe dangosydd o bump i bedwar. Felly, dim ond fel ateb dros dro y mae'r ddau opsiwn arall yn cael eu hawgrymu nes bydd y ddau ddangosydd dadansoddi arbenigol yn barod i'w mesur ar gyfer Cymru.

Er mwyn hwyluso mesurau ymhellach yn y tymor hir a'r tymor byr, rhoddodd y tîm ymchwil ddau ddangosydd cyfansawdd i Lywodraeth Cymru: un ar gyfer y set derfynol o chwe dangosydd fel y'u rhestrwyd drwy astudiaeth Delphi, ac un arall ar gyfer y set dros dro o chwe dangosydd sy'n cynnwys y pedwar ar y rhestr fer sydd eisoes wedi'u casglu yng Nghymru a'r ddau ddewis arall ar gyfer y ddau arall ar y rhestr fer nad oes mesurau ar gael ar eu cyfer yng Nghymru eto.

# 6. Cyfeiriadau


Akins, R.B., Tolson, H. a Cole, B.R. (2005). Stability of response characteristics of a Delphi panel: application of bootstrap data expansion. BMC Med Res Methodol, 5(37).

Applebaum, A. (2020). Twilight of Democracy: The Seductive Lure of Authoritarianism. McClelland a Stewart.

Ares, M. a Häusermann, S. (2023). 'Class and Social Policy Representation', yn N. Lupu a J. Pontusson (golygyddion) Unequal Democracies: Public Policy, Responsiveness, and Redistribution in an Era of Rising Economic Inequality. Gwasg Prifysgol Caergrawnt (SSRC Anxieties of Democracy), tudalennau 300 i 324.

Bächtiger, A., Gerber, M. a Fournier-Tombs, E. (2022). 'Discourse Quality Index'. Yn: Ercan, S.A, Asenbaum, H, Curato, N a Mendonça, R.F (golygyddion) Research Methods in Deliberative Democracy, tudalennau 83 i 98.

Beaufort Research. (2020). Adnewyddu ymgysylltiad democrataidd: Ymchwil archwiliol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 13/2020.

Behrendt, M., Wagner, S.S., Ziegele, M. ac eraill. (2024). AQuA – Combining Experts' and Non-Experts' Views To Assess Deliberation Quality in Online Discussions Using LLMs. ACL Anthology, tudalennau 1 i 12.

Bilbao-Jayo, A. ac Almeida, A. (2018). Automatic political discourse analysis with multi-scale convolutional neural networks and contextual data. International Journal of Distributed Sensor Networks, 14(11).

Bhattacharyya, S. a Hodler, R. (2015). Media freedom and democracy in the fight against corruption. European Journal of Political Economy, 39, tudalennau 13 i 24.

Blair, J. (2017). Lleisiau Coll: Sut mae pobl yn teimlo am wleidyddiaeth yng Nghymru?

Carnegie UK. (2025). Life in the UK 2025 Wales.

Chatham House. (2024). The importance of democracy.

Chuenjitwongsa, S. (2017). How to: Conduct a Delphi Study.

Coppedge, M., Gerring, J., Glynn, A. ac eraill. (2020). 'Dimensions and Components of Democracy'. Yn: Varieties of Democracy: Measuring Two Centuries of Political Change. Gwasg Prifysgol Caergrawnt, tudalennau 90 i 129.

Crick, B. (2002). Democracy: A very short introduction. Rhydychen: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Crouch, C. (2004). Post-democracy. Malden, Mass: Polity.

Dahl, R.A. (1989). Democracy and its Critics. Gwasg Prifysgol Yale.

de Moor, J. (2017). Lifestyle politics and the concept of political participation. Acta Politica, 52(2), tudalennau 179 i 197.

Edelman. (2007). 2007 Edelman Trust Barometer.

Edelman. (2025a). 2025 Edelman Trust Barometer.

Edelman. (2025b). Plummeting trust in institutions has the world slipping into grievance. Here's the fix.

Y Comisiwn Etholiadol. (2022). Adroddiad ar etholiadau mis Mai 2022 yng Nghymru.

Y Comisiwn Etholiadol. (2025). Report on the May 2025 local elections in England.

Electoral Integrity Project. (2022). Electoral Integrity Global Report 2019-2021 — The Electoral Integrity Project EIP.

Elias, A., Phillips, E. a Wolowic, J. (2025). Fostering Democratic Innovations in Wales: Lessons From Around the World.

Yr Arolwg Cymdeithasol Ewropeaidd. (2025). Round 11 questionnaire and provisional release dates | European Social Survey.

Fishkin, J.S. (2009). When the people speak: deliberative democracy and public consultation. Rhydychen; Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Fung, A. (2006). Varieties of Participation in Complex Governance. Public Administration Review, 66(s1), tudalennau 66 i 75.

Garg, R., Han, J., Cheng, Y. ac eraill. (2024). Automated Discourse Analysis via Generative Artificial Intelligence. Proceedings of the 14th Learning Analytics and Knowledge Conference, tudalennau 814 i 820.

Garnett, H.A. a James, T.S. (2020). Measuring electoral integrity: using practitioner knowledge to assess elections. Journal of Elections, Public Opinion and Parties, 31(3), tudalennau 348 i 367.

Geissel, B. a Hess, P. (2017). Explaining Political Efficacy in Deliberative Procedures - A Novel Methodological Approach. Journal of Public Deliberation, 13(2).

Gerber, M. (2014). Equal Partners in Dialogue? Participation Equality in a Transnational Deliberative Poll (Europolis). Political Studies, 63 (Rhifyn atodol 1), tudalennau 110–130.

Habermas, J. (1985). The Theory of Communicative Action: Reason and the Rationalization of Society. Boston, MA: Beacon Press.

Hay, C. (2007). Why We Hate Politics. Caergrawnt: Polity Press.

Healthier Democracies Project. (dim dyddiad). PGI User Guide. [Cyrchwyd 28 Ebrill 2025].

Hetherington, M.J. a Husser, J.A. (2011). How Trust Matters: The Changing Political Relevance of Political Trust. American Journal of Political Science, 56(2), tudalennau 312 i 325.

Himmelroos, S. a Christensen, H.S. (2014). Deliberation and Opinion Change: Evidence from a Deliberative Mini-public in Finland. Scandinavian Political Studies, 37(1), tudalennau 41 i 60.

Knutsen, C.H., Marquardt, K.L., Seim, B. ac eraill. (2024). Conceptual and Measurement Issues in Assessing Democratic Backsliding. PS: Political Science & Politics, 57(2), tudalennau 162 i 177.

Cyfraith Cymru. (2025). Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

Levi, M. a Stoker, L. (2000). Political Trust and Trustworthiness. Annual Review of Political Science, 3(1), tudalennau 475 i 507.

Levitsky, S. a Ziblatt, D. (2018). How Democracies Die. Efrog Newydd, NY: Penguin Random House.

Mansbridge, J. (1999). Should Blacks Represent Blacks and Women Represent Women? A Contingent "Yes". The Journal of Politics, 61(3), tudalennau 628 i 657.

Marshall, M., Gurr, T. a Jaggers, K. (2017). POLITY™ IV PROJECT Political Regime Characteristics and Transitions, 1800-2016: Dataset Users' Manual.

Moore, D. (2023). Adeiladu Pontydd: Democratiaeth Cymru nawr ac ar gyfer ein dyfodol.

Munck, G.L., a Verkuilen, J. (2002). Conceptualizing and Measuring Democracy: Evaluating Alternative Indices. Comparative Political Studies, 35(1), tudalennau 5 i 34.

Nord, M., Altman, D., Angiolillo, F. ac eraill. (2025). Democracy Report 2025: 25 Years of Autocratization – Democracy Trumped? Prifysgol Gothenburg: V-Dem Institute.

Norris, P. (2002). Democratic Phoenix: Reinventing Political Activism. Efrog Newydd. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Norris, P. (2011). Democratic Deficit: Critical Citizens Revisited. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

OECD. (2020). Innovative Citizen Participation and New Democratic Institutions: Catching the Deliberative Wave. Paris: OECD Publishing.

OECD. (2024). OECD Survey on Drivers of Trust in Public Institutions – 2024 Results: Building Trust in a Complex Policy Environment. Paris: OECD Publishing.

Pew Research Center. (2024). Representative Democracy Remains a Popular Ideal, but People Around the World Are Critical of How It's Working.

Phillips, A. (1998). The politics of presence. Gwasg Prifysgol Rhydychen.

Pitkin, H. (1967). The Concept of Representation. Berkeley: Gwasg Prifysgol California.

Prats, M. a Meunier, A. (2021). Political efficacy and participation: An empirical analysis in European countries. OECD Working Papers on Public Governance – No. 46. Paris: OECD Publishing.

Sartori, G. (1987). The theory of democracy revisited. Chatham New Jersey: Chatham House.

Schoonvelde, M. (2014). Media Freedom and the Institutional Underpinnings of Political Knowledge. Political Science Research and Methods, 2(2), tudalennau 163 i 178.

Schumpeter, J.A. (1942). Capitalism, socialism and democracy. Llundain: Routledge.

Ymchwil y Senedd. (2021). Etholiad 2021: faint o bobl bleidleisiodd?

Ymchwil y Senedd. (2024a). Etholiad Cyffredinol y DU 2024: Y canlyniadau yng Nghymru.

Ymchwil y Senedd. (2024b). Un o bwyllgorau'r Senedd yn mynegi 'amheuon sylweddol' ynghylch y system etholiadol arfaethedig.

Ymchwil y Senedd. (2024c). A all newidiadau arfaethedig i'r gyfraith gynyddu canran y bobl sy'n pleidleisio yng Nghymru?

Smith, G. (2009). Democratic Innovations: Designing Institutions for Citizen Participation. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Steenbergen, M.R., Bächtiger, A., Spörndli, M. ac eraill. (2003). Measuring Political Deliberation: A Discourse Quality Index. Comparative European Politics, 1(1), tudalennau 21 i 48.

Theocharis, Y., de Moor, J. a van Deth, J.W. (2019). Digitally Networked Participation and Lifestyle Politics as New Modes of Political Participation. Policy & Internet, 13, tudalennau 30 i 53.

Tilly, C. (2007). Democracy. Gwasg Prifysgol Caergrawnt.

Urbinati, N. (2014). Democracy Disfigured: Opinion, Truth, and the People. Gwasg Prifysgol Harvard.

V-Dem Institute. (2024). Structure of V-Dem Indices, Components, and Indicators v14: V-Dem Dataset.

Valgardsson, V., Ryan, M., Jennings, W. ac eraill. (2023). Diffinio, Mesur a Monitro Iechyd Democrataidd yng Nghymru. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Valgarðsson, V., Jennings, W., Stoker, G. ac eraill. (2025). A Crisis of Political Trust? Global Trends in Institutional Trust from 1958 to 2019. British Journal of Political Science, 55.

Verba, S., Schlozman, K. a Brady, H.E. (1995). Voice and Equality: Civic Voluntarism in American Politics. Gwasg Prifysgol Harvard.

Vogel, C., Zwolinsky, S., Griffiths, C. ac eraill. (2019). A Delphi study to build consensus on the definition and use of big data in obesity research. International Journal of Obesity, 43(12), tudalennau 2573 i 2586.

Llywodraeth Cymru. (2022a). Llesiant Cymru: dangosyddion cenedlaethol.

Llywodraeth Cymru. (2022b). Arolwg Cenedlaethol Cymru. Prif ganlyniadau: Ebrill 2021 - Mawrth 2022.

Llywodraeth Cymru. (2024a). Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: adroddiad terfynol.

Llywodraeth Cymru. (2024b). Iechyd democrataidd cynghorau tref a chynghorau cymuned.

Llywodraeth Cymru. (2024c). Canllawiau: Diwygio'r Senedd.

Llywodraeth Cymru. (2025a). Treialu cynlluniau i gofrestru etholwyr yn awtomatig yng Nghymru.

Llywodraeth Cymru. (2025b). Arolwg Cenedlaethol Cymru: dangosfwrdd dangosydd canlyniadau.

Llywodraeth Cymru. (2025c). Canllawiau ar amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer pleidiau gwleidyddol cofrestredig.

Wike, R. a Fetterolf, J. (2021). Global Public Opinion in an Era of Democratic Anxiety. Pew Research Center.